

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Trwyddedau Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Trosolwg o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Rhan 4 – Triniaethau Arbennig

1. Mae'r Rhan hon yn darparu ei bod yn ofynnol i rai unigolion sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru gael trwydded i wneud hynny gan awdurdod lleol oni bai eu bod wedi'u heithrio. Diffinnir triniaethau arbennig yn y Ddeddf yn adran 57 fel (a) aciwbigo; (b) tyllu'r corff; (c) electrolysis; (d) tatŵio.
 - Mae adran 62 yn gwneud darpariaeth ar gyfer meini prawf sydd i'w bodloni ar gyfer caniaáu cais am drwydded.
 - Mae adran 63 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau y bydd trwydded yn ddarostyngedig iddynt.
 - Mae adrannau 65 i 68 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded ac i ddirymu trwydded; ac mae adran 75 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr o'r unigolion hynny sydd wedi eu trwyddedu.
 - Mae adrannau 69 i 74 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymeradwyo mangre neu gerbyd lle rhoddir triniaeth arbennig.
 - Mae adran 76 yn galluogi awdurdod lleol i godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau triniaethau arbennig a chymeradwyo mangreoedd a cherbydau.
 - Mae adrannau 77 i 81 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau a all gael eu cyflwyno gan awdurdod lleol yn achos torri gofynion y Rhan hon, ynghylch cydymffurfio â hysbysiadau ac ynghylch apeliadau.
 - Mae adran 82 yn gwneud darpariaeth am droseddau o dan y Rhan hon.

Mae adrannau 83 i 90 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch pwerau awdurdodau lleol i orfodi gofynion y Rhan hon, ac mae adrannau 91 a 92 yn gwneud darpariaeth ynghylch eiddo a gadwir o dan y Rhan hon.
2. Mae'r adrannau hyn i'w deddfu drwy reoliadau a wneir drwy broses ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus a chraffu gan y Senedd cyn y gellir eu pasio a'u cychwyn. Mae'r rheoliadau drafft sydd i'w gwneud yn destun hyn
3. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddio (RIA) ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Mai 2017. Mae'r opsiynau a ffafir a ddaeth yn gyfraith wedi'u nodi isod ac wedi'u diweddarau lle bo hynny'n berthnasol i gynrychioli triniaethau a chostau presennol.

4. Nid oes darpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Cefndir

5. Mae nifer o driniaethau cosmetig a therapiwtig wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ystod y degawd diwethaf, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r rhain yn cynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.
6. Ceir risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â'r triniaethau hyn a ddiffinnir yn y Ddeddf fel 'triniaethau arbennig'. Mae'n bosibl cael haint yn y man lle y rhoddir y driniaeth ac, ar achlysuron prin, gall hyn arwain at anffurfio a gall beryglu bywyd. Gall arferion amhriodol ac anhylan arwain at ledaenu clefydau heintus, megis feirysau a gludir yn y gwaed¹, a all effeithio ar iechyd cleientiaid, yn ogystal â pheryglu iechyd yr ymarferydd ei hun. Oherwydd diffygion difrifol o ran rheoli heintiau a oedd yn gysylltiedig â stiwdio tyllu a thatwio yng Nghasnewydd, cafodd nifer o gwsmeriaid heintiau difrifol ar y croen a bu'n rhaid iddynt gael gofal mewn ysbyty a llawdriniaeth adluniol, ar ôl cael tyllu rhan o'u corff yn y stiwdio. Cynhaliwyd adolygiad a oedd yn effeithio ar tua 700 o bobl, y mwyafrif ohonynt yn bobl ifanc, i weld a oedd posibilrwydd bod rhai o'r cleientiaid wedi cael feirws a gludir yn y gwaed.²
7. Felly, i leihau'r perygl, mae'n bwysig fod ymarferwyr yn defnyddio arferion gwaith diogel, ac yn enwedig eu bod bob amser yn dilyn arferion da o ran rheoli heintiau, fel bod y cleientiaid a'r ymarferwyr yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Mae'r cymhlethdodau a allai godi yn cynnwys chwyddiadau, haint, gwaedu, ac adweithiau alergaidd neu wenwynig i'r sylweddau a ddefnyddir, yn ogystal â rhwygiadau neu anaf corfforol arall. Gellid achosi niwed i'r nerfau a chreithiau hefyd os bydd y triniaethau'n cael eu cynnal yn wael. O ran tyllu, canfu arolwg a gynhaliwyd yn Lloegr fod mwy na chwarter y bobl a gafodd driniaeth tyllu (heblaw am dyllau yn llabedi'r clustiau) wedi profi cymhlethdodau, a bod oddeutu hanner y rhai hynny a brofodd gymhlethdodau wedi ystyried eu bod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gofyn am gymorth³. Roedd nifer yr achosion yn uwch ymysg pobl ifanc 16-24 oed, â phroblemau iechyd wedi codi yn oddeutu un o bob tri achos. Er bod y rhan fwyaf o'r problemau sy'n gysylltiedig â thyllu fel arfer yn fychan ac yn gwella ohonynt eu hunain, mae rhai cymhlethdodau yn ddigon difrifol i fod angen sylw meddygol neu dderbyn i'r ysbyty, a cheir achosion unigol o niwed sylweddol i iechyd⁴, Gall tyllau yn y geg niweidio'r tafod a'r dannedd,

¹ Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-274

² Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Newport tattooing and piercing concerns update. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/37472/>

³ Bone, A. Ncube, F. Nichols, T and Noah, ND. (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe. BMJ, 336, 1426

⁴ M. L. Armstrong, S. DeBoer and F. Cetta, "Infective endocarditis after body art: A review of the literature and concerns," Journal of Adolescent Health, vol. 43, no. 3, pp. 217-225, 2008. 93 BBC News online (2007) Belly stud 'almost killed teen' Available at: http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/south_east/7020936.stm

atal y llwybr anadlu trwy chwyddo, ac effeithio ar leferydd os caiff y broses ei chynnal yn wael⁵. Gall y cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i unrhyw un sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, a chofnodwyd achosion o unigolion sydd wedi marw ar ôl cael tyllau.⁶

8. Gellir lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig trwy gymryd nifer o gamau. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Sicrhau bod y fangre lle y rhoddir y driniaeth, yn ogystal â'r gosodiadau a ffitiadau, yn lân iawn;
 - Arferion hylan gan ymarferwyr;
 - Gwneud yn siŵr fod prosesau cywir wedi eu sefydlu ar gyfer glanhau, sterileiddio neu gael gwared ar declynau, deunyddiau ac offer; ac
 - Ymgynghori cyn ac ar ôl y triniaethau.

Y sefyllfa bresennol

9. Nod y rheolaethau deddfwriaethol presennol ar gyfer triniaethau arbennig yw sicrhau bod trefniadau rheoli heintiau yn ddigonol a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Y prif ddull o orfodi'r trefniadau hyn yw defnyddio'r gofynion cofrestru yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"). Yn ogystal, ceir rheolaethau rheoleiddiol eraill sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gwahardd gweithgareddau ar unwaith, neu ar gyfer rheoli mangre neu bethau lle y gellir dangos bod risg o niwed sylweddol i iechyd y cyhoedd.
10. Nid yw'n fandadol creu cynllun cofrestru o dan Ddeddf 1982. Yn ogystal, pan fo awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r darpariaethau, maent yn aml yn cael eu gorfodi mewn modd anghyson ar draws Cymru. Nid yw llawer o awdurdodau lleol hyd yma wedi mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol diweddaraf Llywodraeth Cymru⁷ ynghylch glanweithdra a hylendid mangreoedd, ymarferwyr ac offer.
11. Nid yw awdurdodau lleol yn cael gwrthod cais i gofrestru o dan Ddeddf 1982 oni bai fod yr ymgeisydd eisoes wedi cael cofrestriad blaenorol wedi'i ganslo gan y llysoedd oherwydd ei fod wedi ei gael yn euog o drosedd (megis torri is-ddeddf ar hylendid). Mae'n rhaid cymeradwyo'r mwyafrif o'r ceisiadau.
12. Er mwyn gorfodi'r gofyniad cofrestru, rhaid i awdurdod lleol allu profi bod unigolyn yn 'rhedeg busnes'. Gall hyn fod yn anodd, er enghraifft gan y gallai rhai ymarferwyr weithio o'u cartrefi. Mae'r sefyllfa wedi'i gwaethygu gan bandemig COVID-19, gyda mwy o ymarferwyr yn dewis gweithio o'u mangreoedd preswyl.
13. Nid oes rhaid cynnal 'prawf cymhwysedd', sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n rhoi'r triniaethau allu dangos lefel o wybodaeth am hylendid a rheoli heintiau sy'n briodol,

⁵ L. R. Stead LR, Williams JV, Williams AC and Robinson CM (2006) An investigation into the practice of tongue piercing in the South West of England. British Dental Journal 200 103- 107

⁶ BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm
96 BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757>

⁷ Gwefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/acupuncture/?lang=en>

cyn cofrestru o dan Ddeddf 1982. Nid oes unrhyw ofynion ychwaith o ran ffurflenni cydsynio, ymgynghoriad cyn ac ar ôl y driniaeth, cyngor ôl-ofal na chadw cofnodion. Ystyrir felly nad yw'r cynllun cofrestru bresennol yn ymdrin â phryderon iechyd y cyhoedd nac yn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol, a gwelwyd enghreifftiau o ymarferwyr heb eu cofrestru yn cael eu herlyn⁸.

Diben y darpariaethau

14. Mewn ymateb i'r diffygion ymddangosiadol yn y cynllun presennol, nod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yw diddymu darpariaethau Deddf 1982 a'i ddisodli â chynllun trwyddedu genedlaethol, orfodol ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig penodedig yng Nghymru. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u gwneud yn Rhan 4 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf. Bydd y cynllun a nodir yn Rhan 4 o'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i unigolyn fod yn drwyddedig, er mwyn cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig a ddiffinnir yn y Ddeddf, a bod yn rhaid i'r fangre neu'r cerbyd lle maent yn gweithredu fod wedi ei gymeradwyo. Bydd trwyddedau a chymeradwyaethau unigol yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Bydd trwyddedau a chymeradwyaeth dros dro ar gael hefyd ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau.
15. Nod y cynllun hwn yw bodloni disgwyliadau cwsmeriaid yn well ac ymateb i'r gwahanol fodelau busnes yn y sector. Y bwriad yw sicrhau bod ymarferwyr unigol yn cadw at safonau priodol (yn ymwneud â hylendid, cadw cofnodion a dilysu oed, er enghraifft), yn ogystal â sicrhau nad yw triniaethau arbennig ond yn cael eu cyflawni mewn amgylchedd addas. Y diben cyffredinol yw sicrhau nad yw'r triniaethau arbennig hyn, pan fyddant yn cael eu darparu yng Nghymru, yn cael eu cyflawni mewn modd a allai achosi niwed i iechyd.
16. Y triniaethau a ddiffinnir yn y Ddeddf fel 'triniaethau arbennig' at ddibenion y cynllun trwyddedu yw:-
 - Aciwbigo;
 - Tyllu'r corff;
 - Electrolysis; a
 - Thatŵio.
17. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod y maes triniaethau arbennig yn un sy'n esblygu'n gyflym a bod nifer o ffactorau'n dylanwadu arno, gan gynnwys newidiadau mewn tueddiadau ffasiwn. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol wrth i driniaethau newydd gael eu dyfeisio'n gyson, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal ymgynghoriad pellach ar y mater hwn yn y dyfodol ac, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, gall wneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

⁸ <http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/acupuncture/?lang=en>

18. Ar ôl sefydlu'r cynllun trwyddedu, bydd yn drosedd i ymarferydd gynnal unrhyw driniaeth arbennig heb drwydded neu eu cyflawni mewn mangreoedd neu gerbydau nad ydynt wedi eu cymeradwyo. Mae'r Ddeddf yn darparu i esemptiadau gael eu gwneud i'r gofynion hyn, er enghraifft, esemptio aelodau o broffesiynau penodol (megis meddygon, deintyddion a nyrsys) rhag gorfod cael trwydded i roi triniaethau arbennig, oni bai bod y rheoliadau yn darparu fel arall. Mae pŵer ar gael hefyd i Weinidogion Cymru esemptio aelodau o broffesiynau penodedig eraill trwy gyfrwng rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
19. Bydd Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, yn gosod meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedu mandadol, fel bod safonau ymarfer a'r dull o orfodi triniaethau arbennig yn gyson ym mhob rhan o Gymru. Bydd y meini prawf trwyddedu yn pennu cymhwysedd unigolyn i gael trwydded, ymysg pethau eraill, ar sail eu gallu i ddangos gwybodaeth am reoli heintiau, cymorth cyntaf a'u rhwymedigaethau cyfreithiol – er enghraifft peidio rhoi tatŵ i unigolyn dan 18 oed. Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni er mwyn cael cadw ei drwydded. Bydd hyn yn cynnwys amodau yn ymwneud â chadarnhau oedran, arferion rheoli heintiau, safon hylendid, cymorth cyntaf, cyngor cyn ac ar ôl y driniaeth a chadw cofnodion. Bydd yr amodau hefyd yn gwahardd deiliad trwydded rhag cynnal triniaeth arbennig ar unigolyn sydd dan ddylanwad diod, cyffuriau neu sylwedd arall, neu sy'n ymddangos felly.
20. Mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion sy'n rhoi dyletswydd ar ddeiliaid trwydded, a pherchnogion mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd i fodloni'r gofynion ac i weithredu yn unol â'r amodau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys arddangos trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo a fydd yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid bod gan yr ymarferydd drwydded a bod y fangre/cerbyd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer rhoi triniaethau arbennig.
21. Hefyd, mae'r Ddeddf yn darparu mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu, ac am gadw cofrestr o'r trwyddedau triniaethau arbennig a gyhoeddwyd ganddynt ac nad ydynt wedi dod i ben eto, yn ogystal â'r mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd ganddynt. Mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y wybodaeth sydd ar y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Gall Gweinidogion Cymru drefnu i un awdurdod lleol ymgymryd â'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol i gadw cofrestr, gan gadw cofrestr ganolog ar ran y gweddill. Diben y gofrestr yw sicrhau y gall unrhyw un sy'n dymuno cael un o'r triniaethau arbennig diffiniedig chwilio am wybodaeth a gwybod bod yr ymarferydd neu'r busnes y mae'n ei ddewis wedi bodloni'r safonau cenedlaethol.
22. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu nifer o ofynion a throseddau. I atal unigolion rhag darparu triniaethau arbennig os nad oes ganddynt drwydded, neu ddefnyddio mangreoedd/cerbydau heb eu cymeradwyo ar gyfer darparu triniaethau arbennig, caiff awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal a fydd mewn grym yn unrhyw le yng Nghymru. Caiff yr awdurdod lleol hefyd gymryd camau gweithredu trwy ddosbarthu hysbysiad camau adfer os yw deiliad trwydded neu fangre/gerbyd yn torri un neu fwy o'r amodau mandadol perthnasol. Bydd yr hysbysiad camau adfer hwn yn gorchymyn bod camau penodol yn cael eu cymryd i unioni'r broblem o fewn 14 diwrnod. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i swyddogion awdurdodau lleol gael mynd i mewn i fangreoedd er mwyn

penderfynu ar geisiadau ar gyfer trwyddedau neu gymeradwyaethau, cynnal arolygiadau a gorfodi gofynion y ddeddfwriaeth.

23. Os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad trwydded wedi peidio â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol neu wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, mae'r Ddeddf yn darparu y caiff ddirymu trwydded triniaeth arbennig, naill ai yn llawn neu i'r graddau y mae'n ymwneud â thriniaeth arbennig benodol. Yn yr un modd, caiff yr awdurdod lleol ddirymu cymeradwyaeth mangre/cerbyd. Pan fo'r awdurdod lleol wedi cymryd camau megis cyflwyno hysbysiad atal, dirymu trwydded/cymeradwyaeth neu wrthod cais, mae gan yr unigolyn yr hawl i gyflwyno sylwadau gerbron yr awdurdod lleol yn gyntaf, ac wedyn i gyflwyno apêl i lys ynadon yn erbyn y penderfyniad.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

24. Bydd Rhan 4 o'r Ddeddf pan gaiff ei dechrau yn cyflwyno cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n darparu'r triniaethau arbennig yng Nghymru. Bydd safonau cenedlaethol ynghlwm â hyn, a byddant yn cael eu gorfodi gan awdurdodau lleol. Nod y cynllun fydd gwella safonau o ran cyflawni'r triniaethau arbennig a sicrhau dull gwell a chyson o reoleiddio'r triniaethau hyn ar draws Cymru.
25. Yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig â gwella safonau ymarfer, bydd unigolion sy'n dymuno cael un o'r triniaethau arbennig hefyd yn elwa'n uniongyrchol yn sgil y ffaith y bydd gwybodaeth ymlaen llaw am y driniaeth, yn ogystal â chyingor ôl-ofal, ar gael yn rhwyddach. Bydd pobl sy'n dymuno cael y triniaethau hyn yn medru cael sicrwydd bod y fangre/cerbyd dan sylw wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer cynnal triniaeth arbennig, a bod yr ymarferwr yn gymwys i gyflawni'r driniaeth mewn ffordd lân. Byddant hefyd yn medru cyrraedd at gofrestr o ddeiliaid trwyddedau a mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd ar gyfer triniaethau arbennig yn eu hardal, a'r rheini sydd ar gael ledled Cymru. Bydd hyn o gymorth i wneud y drefn yn fwy tryloyw a sicrhau bod pobl Cymru yn cael gwell gwybodaeth am ymarfer ym maes triniaethau arbennig.
26. Y bwriad yw y bydd y cynllun o fantais i'r rhan fwyaf o'r deiliaid trwydded sy'n cynnal y triniaethau arbennig, ynghyd â'r mangreoedd/cerbydau lle y'u cyflawnir, o safbwynt eu henw da. Trwy fodloni'r gofynion, byddant yn gallu dangos i'r cyhoedd eu bod yn ymarfer yn unol â safonau hylendid a glanweithdra priodol, yn ogystal â'u hamddiffyn eu hunain rhag risgiau i iechyd trwy ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Rhoddir hwb ychwanegol i ffydd y cyhoedd a dealltwriaeth cleientiaid oherwydd y gofyniad i ymarferwyr ddarparu ymgynghoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth, er mwyn sicrhau bod pobl yn llwyr ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth benodol. Bydd hyn yn cynnwys Cyngor ar ôl-ofal. Dylai hyn arwain at lai o achosion o haint, os glynir yn briodol at y cyngor ynglŷn â gofal ar ôl y driniaeth.
27. Yn ogystal â sicrhau bod cleientiaid ac ymarferwyr yn fwy diogel, bydd y Ddeddf hefyd yn darparu pwerau gorfodi cyson ac effeithiol i awdurdodau lleol ar gyfer arolygu mangreoedd/cerbydau, a phan fo angen, atal ymarfer anniogel.

28. Y tu hwnt i hyn, mae'n bosibl y bydd y manteision sy'n deillio o well hylendid a glendid yn ymestyn i driniaethau eraill y mae ymarferwyr yn eu cynnig, er nad yw'r gofynion yn y ddeddfwriaeth yn ymdrin â nhw.

Ymgynghoriadau Blaenorol

29. Mae'r testun llawn o ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd mewn perthynas â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i'w gweld yn y ddogfen Memorandwm Esboniadol ac Asesu Effaith Reoleiddiol derfynol.⁹ Mae'r adran ganlynol yn cynnwys darnau o'r ddogfen honno fel y maent yn berthnasol i driniaethau arbennig.

Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd

30. Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddwyd Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, yn dwyn y teitl Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig¹⁰. Roedd y Papur yn dwyn ynghyd gyfres o gynigion ar wahân, ond cysylltiedig, er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd drwy ddulliau gweithio ataliol. Cyflwynwyd y cynigion dan dair thema fras, sef gwella iechyd gydol oes; adeiladu asedau cymunedol ar gyfer iechyd; a rheoleiddio ar gyfer iechyd.

31. Roedd y cynigion yn ymwneud â:

- sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco, sy'n gofyn bod
- busnesau yn rhoi gwybod i awdurdodau gorfodi os ydynt yn
- gwerthu tybaco;
- gwahardd ysmygu mewn mannau agored penodol (megis tir ysbytai ac ysgolion);
- ystyried ei gwneud yn drosedd i ddarparu cynhyrchion tybaco i
- berson o dan 18 oed;
- atgyfnerthu swyddogaeth Byrddau Iechyd Lleol yn y broses o
- gynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau fferyllol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau - a hynny o ran eu nifer, eu lleoliad a'u math;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio strategaeth sy'n ymdrin â'r toiledau a ddarperir at ddefnydd y cyhoedd, a'u mynediad atynt; a
- cyflwyno Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig, gan gynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

Cofrestr Genedlaethol Triniaethau Arbennig (yn ymwneud â Rhan 3 a Rhan 4 o'r Ddeddf - 'Triniaethau Arbennig' a 'Tyllu mewn rhan bersonol o'r corff', Ran 4 a Rhan 5 o'r Ddeddf derfynol)

32. Daeth 102 o ymatebion i law mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Teimlai'r mwyafrif nad yw'r wybodaeth, y rheoleiddio a'r gorfodi sy'n gysylltiedig ag aciwbigo, tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn amddiffyn y cyhoedd yn

⁹ pri-ld10796-em-r-e.pdf (senedd.wales)

¹⁰ <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/?lang=en>

effeithiol. Roedd hon yn neges gyson trwy'r ymatebion gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

33. Roedd mwyafrif clir o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o sefydlu Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig, gan fod llawer yn teimlo y byddai potensial iddi sicrhau dull gwaith cyson ledled Cymru, gan helpu unigolion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth wrth benderfynu at bwy i fynd am driniaeth benodol, a sicrhau bod ymarferwyr a mangreoedd yn bodloni safonau penodol. Cafwyd cytundeb cyffredinol mai awdurdodau lleol fyddai yn y sefyllfa orau i weinyddu a gofodi'r gofrestr.
34. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried cynnwys triniaethau ychwanegol ar y gofrestr. Cyfeiriwyd at amrywiaeth eang o driniaethau, gan gynnwys llenwi'r croen, pilio cemegol, golchi'r colon, botox, creithio'r croen, llosgnodi, mewnbaniadau a hollti'r tafod. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau na ddylid cynnwys aciwbigo ar y gofrestr gan fod rheoliadau eraill ar waith yn y maes hwnnw.
35. Aeth cwestiynau'r ymgynghoriad i'r afael â nifer o fanylion penodol. Mewn ymateb i'r rhain, cafwyd sylwadau gan y mwyafrif o ymatebwyr y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru allu diwygio'n rheolaidd y rhestr o driniaethau sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n addas at ei diben. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau mewn cysylltiad â ffioedd cofrestru, gyda'r mwyafrif yn ffafrio dull cenedlaethol a ffioedd wedi'u pennu ar lefel y gallai busnesau bach ac ymarferwyr unigol ei fforddio.
36. Ymysg y materion eraill a drafodwyd, cafwyd ystod o awgrymiadau o ran pa mor aml y dylid gofyn i ymarferwyr a busnesau ailgofrestru, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer llunio prawf 'person addas a phriodol'. Cafwyd awgrymiadau penodol hefyd am yr hyn y dylid ei drafod mewn ymgynghoriadau mandadol a gynhelir cyn ac ar ôl y triniaethau.
37. Yn y Papur Gwyn, parhawyd â thrafodaethau am y dystiolaeth o niwed a achosir gan dyllu cosmetig, yn arbennig tyllu cosmetig mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thyllu cosmetig yn gyffredinol, ac roedd nifer hefyd yn dadlau'n gryf dros wahardd tyllu cosmetig mewn rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc.

Ymgynghoriadau eraill

Ymgynghoriad ar sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc

38. Yn dilyn ymrwymiad i ymgynghori ar sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori yn 2011.¹¹ Daeth 228 o ymatebion i law a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion¹².
39. Yn sgil ystyriaeth a gwaith polisi ychwanegol, datblygwyd elfennau o'r cynnig blaenorol (megis y cynigion yn ymwneud ag ymgynghoriad safonol cyn pob triniaeth tyllu

¹¹ <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/cosmetic/?lang=en>

¹² <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/cosmetic/?lang=en>

cosmetig), drwy'r cynnig ehangach ar gyfer Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â hyn yn y Papur Gwyn dilynol ar lechyd y Cyhoedd. Gwnaed hyn gan gydnabod bod y materion ehangach, megis gwell gwybodaeth, a threfn well ar gyfer rheoleiddio a gorfodi, yn berthnasol yn ehangach na'r diwydiant tyllu cosmetig yn unig.

40. I gydnabod y gefnogaeth barhaus a fynegwyd yn yr ymatebion i Bapur Gwyn lechyd y Cyhoedd i gyfyngiadau mewn cysylltiad â thyllu rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc, ymdrinnir â'r mater hwn yn Neddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Ymgynghoriad gan Bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad

41. Cafodd Deddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) ei hystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf fel Bil yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, wedi iddo gael ei gyflwyno ar 8 Mehefin 2015. Adeg ei gyflwyno, roedd y Bil yn cynnwys y prif elfennau canlynol:
- Cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco ac e-sigaréts mewn mannau
 - cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, gyda
 - phŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau i fannau agored penodol;
 - Creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
 - Pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
 - Gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i berson o dan 18 oed;
 - Creu cynllun trwyddedu gorfodol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal 'triniaethau arbennig', sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
 - Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn o dan 16 oed;
 - Newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol byrddau iechyd lleol, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol; a
 - Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd.
42. Fel rhan o brosesau craffu'r Cynulliad, cafodd y Bil ei archwilio gan nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, a'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol oedd yn arwain y broses graffu.
43. Wrth ystyried y Bil, cynhaliodd y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ymarfer ymgynghori cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid. Yn ystod yr ymarfer, cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus fel rhan o waith y Pwyllgor hefyd.
44. Cyhoeddodd y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ym mis Tachwedd 2015¹³. Roedd yr adroddiad yn gwneud 19 o argymhellion penodol ar sut i wella'r Bil, gan gyfeirio at wahanol feysydd yn y Bil. Roedd gwelliannau diweddarach gan y Llywodraeth i'r Bil yn mynd i'r afael â nifer o'r rhain, er enghraifft ychwanegu darpariaethau newydd yn ymwneud ag asesiadau o'r effaith ar iechyd, ac ychwanegu'r tafod at y rhestr o 'rannau personol o'r corff' y byddai'r gwaharddiad ar roi twll mewn

¹³ <http://www.senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=12763>

rhan bersonol o gorff unigolyn o dan 16 oed yn berthnasol iddynt. Wrth geisio penderfynu a ddylid cefnogi'r cyfyngiadau yn y Bil ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus, nid oedd yr aelodau'n gallu dod i gonsensws, felly ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion penodol ar y pwnc hwn yn yr adroddiad.

Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

45. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 2 (canllawiau ac is-ddeddfau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:
- (i) Y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
 - (ii) Ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
 - (iii) Priodoldeb y pŵer dirprwyedig; a
 - (iv) Y weithdrefn a gymhwysir - hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.
46. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori ar egwyddorion y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig gyda'r bwriad o lywio rheoliadau drafft a dechrau darpariaethau Rhan 4 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn yn ffurfio rhan o ddeunyddiau'r ymgynghoriad. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y rheoliadau drafft eu hunain ar adeg briodol, ac wedi hynny cânt eu cyflwyno gerbron Senedd Cymru i graffu arnynt.

Tabl 1 – Pwerau a gynhwysir yn Rhan 4 o'r Ddeddf – Triniaethau Arbennig

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
60(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ei bod yn ofynnol i unigolion sydd wedi eu hesemptio (aelodau o broffesiwn a nodir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) gael trwydded triniaethau arbennig er mwyn rhoi triniaethau arbennig penodedig.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd modd i unigolion sydd wedi eu hesemptio roi triniaethau arbennig penodedig heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl ar y mater a ddylai ei bod yn ofynnol i'r unigolion hyn gael trwydded ai peidio. Yn ychwanegol at hyn, mae adran 57(5) yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau hyn.
60(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio unigolion nad ydynt yn aelodau o broffesiwn a nodir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, ond sy'n aelodau o gofrestr gymhwyso, o'r gofyniad i weithredu dan awdurdod trwydded triniaethau arbennig.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o ymarferwyr sydd wedi eu hesemptio yn cael ei hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Yn ychwanegol at hyn, mae adran 57(4) a 57(5) yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau hyn.
62(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r meini prawf trwyddedu (sy'n gorfod cynnwys y gofynion a nodir yn adran 59(2)) y mae'n rhaid eu bodloni wrth wneud cais am drwydded triniaethau arbennig er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai sy'n gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 61 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
62(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'r gofynion, cyn cyflwyno neu adnewyddu trwydded, y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu dilyn o ran arolygu'r mangreoedd neu'r cerbydau hynny a nodwyd mewn cais am drwydded.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar awdurdodau lleol – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 61 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio.
62(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion o ran y meini prawf trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau lle caiff triniaeth arbennig ei chyflawni.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai sy'n gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 61 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio.
63(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r amodau trwyddedu mandadol a fydd yn gymwys i'r rhai sydd â thrwydded triniaethau arbennig. Mae'n rhaid i'r amodau trwyddedu mandadol gynnwys y gofynion a nodir yn adrannau 60(2) a 60(3).	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd yr amodau trwyddedu mandadol – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai hynny sydd â thrwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 61 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
63(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion o ran yr amodau trwyddedu mandadol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau lle caiff triniaeth arbennig ei chyflawni.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd yr amodau galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion o ran yr amodau trwyddedu mandadol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau lle caiff triniaeth arbennig ei chyflawni. trwyddedu mandadol – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai hynny sydd â thrwydded triniaethau arbennig - yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 61 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio.
66(10)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o droseddau perthnasol dan adran 63(3) drwy ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o drosedd.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o droseddau perthnasol – a allai o bosib atal ymgeisydd rhag gael trwydded i wneud triniaethau arbennig – yn cael ei hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl cyn ei hymestyn.
69(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodedig o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol ac i esemptio person, mangre neu gerbyd sy'n gysylltiedig ag arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall, o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o fangreoedd a cherbydau sydd wedi'u heithrio yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl cyn ei hymestyn.
70(3)(a) neu (c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf sydd angen eu bodloni a'r amodau

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig. Rhaid i'r rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni a'r amodau cymeradwyo mandadol y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.		cymeradwyo mandadol y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.
70(3)(b) neu (d)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthnas â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig. Rhaid i'r rheoliadau bennu'r amgylchiadau ar gyfer cymeradwyo cais, a gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno apêl pe byddai cais yn cael ei wrthod.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
70(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth am y ffordd y mae'n rhaid i geisiadau am gymeradwyaeth o fangreoedd neu gerbydau, a'u trin. Mae hyn yn cynnwys talu ffi, yr amgylchiadau lle mae'n rhaid i gais beidio â chael ei gymeradwyo, neu y gellir eu cymeradwyo ar ddisgresiwn yr awdurdod lleol a'r broses ar gyfer adnewyddu cymeradwyaeth neu ddiwygio'r gymeradwyaeth.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd
70(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn ymwneud â'r modd y mae'n rhaid gwneud ac ymdrin â	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			cheisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer mangreoedd neu gerbydau. Mae hyn yn cynnwys talu ffi, dan ba amgylchiadau nad oes modd caniatáu cais, neu dan ba amgylchiadau y ceir ei ganiatáu yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol a'r broses ar gyfer adnewyddu cymeradwyaeth neu amrywio cymeradwyaeth.		diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
70(9)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaethau at wahanol ddibenion yn ymwneud â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd neu gerbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a dan ba wahanol amgylchiadau y rhoddir triniaeth arbennig. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y dylid gwneud rheoliadau dan adran 70.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
71(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach am ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
72(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach am rybudd ynghylch terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol, gan gynnwys yr wybodaeth i'w chynnwys yn y rhybudd.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
76(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			wneud darpariaeth ynghylch y ffordd mae awdurdod lleol i benderfynu ar ffioedd y dylai ymgeisydd dalu wrth wneud cais am drwydded ar gyfer triniaethau arbennig neu gymeradwyo mangre neu gerbyd.		Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
76(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach ynghylch y ffioedd am drwydded ar gyfer triniaethau arbennig neu gymeradwyo mangre neu gerbyd. Gall hyn gynnwys y ffordd y mae'r ffi i'w thalu, ad-dalu ffi (neu gyfran ohoni) mewn achosion o or-dalu, ac adfer ffi sy'n ddyledus i awdurdod a heb ei thalu.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
93(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig yn adran 54.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y rhestr o driniaethau arbennig yn cael ei diwygio heb ystyriaeth lawn a heb gyfle ar gyfer dadl. Hefyd, mae adran 90(3) yn nodi y dylid arfer y pŵer hwn dim ond os yw Gweinidogion Cymru o'r farn – (a) bod modd cyflawni'r driniaeth at ddibenion esthetig neu at ddibenion sy'n therapiwtig ym marn Gweinidogion Cymru, a (b) bod modd achosi niwed i iechyd dynol os caiff ei chyflawni at y dibenion hynny Ar ben hynny, mae adran 90(4) yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n debyg o gael eu heffeithio cyn arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
94(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o "tyllu'r corff" trwy ddisgrifio gwrthrychau y gellir eu gosod, mewnbllannu neu dynnu o gorff unigolyn. Hefyd, gellir rhagnodi gwrthrych neu ddisgrifiad o wrthrych drwy gyfeirio (ymysg pethau eraill) at y rhan o'r corff lle mae'r twll i gael ei roi.	Cadarnhaol	Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y diffiniad o "tyllu'r corff" yn cael ei ddiwygio heb ystyriaeth lawn a heb gyfle ar gyfer dadl.

Atodlen 3 – Darpariaeth bellach mewn perthynas â thrwyddedau triniaeth arbennig

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Paragraff 4(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am y ffordd y bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ar swm y ffi a fydd yn berthnasol i gais am drwydded triniaethau arbennig a gwneud darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau, yn cynnwys y ffordd y caiff cais ei drin gan yr awdurdod lleol. Bydd y rheoliadau hyn yn ychwanegol i'r manylion a ddarperir yn Atodlen 3, paragraffau 1, 2, 3 a 4.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
Paragraff 5(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am y ffurflen a chynnwys y trwyddedau triniaeth arbennig. Bydd y rheoliadau hyn yn ychwanegol i'r manylion a ddarperir yn Atodlen 3, paragraffau 5(1) a 5(2).	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.

Paragraff 21(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am y triniaethau sy'n berthnasol i bwyllgor trwyddedu awdurdod lleol a'u his-bwyllgorau.	Negyddol	Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.
------------------------	--------------------	------------	--	----------	--

Canllawiau ac is-ddeddfau

Adran neu Atodlen o'r Ddeddf	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Pŵer
63(11)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu p'un a yw addasrwydd ymgeisydd i weithredu triniaeth arbennig wedi'i gwestiynu.

Opsiynau

47. Ystyriwyd tri opsiwn o sylwedd yn wreiddiol, ac mae'r trydydd wedi ei rannu'n ddau is-opsiwn:
- Opsiwn un – Gwneud dim;
 - Opsiwn dau – Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar arfer gorau ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth;
 - Opsiwn 3A – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig. Hwn oedd yr opsiwn a ffafrwyd;
 - Opsiwn 3B – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig ynghyd â chofrestr ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd neu gerbydau cymeradwy sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru.

Costau a buddion a gyfrifwyd ar gyfer Bil gwreiddiol lechyd y Cyhoedd (Cymru)

48. Cynhyrchwyd y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn gan ddefnyddio'r wybodaeth orau oedd ar gael ar y pryd. Cafodd y wybodaeth ei pharatoi trwy drafod gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau eraill. Cafodd y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn eu hasesu'n wreiddiol dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2017-18 a 2021-22, gyda chyfnod hirach yn cael ei ddefnyddio mewn rhai achosion. Lle roedd disgwyl i gostau ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd (h.y. costau rheolaidd) nodwyd y rhain yn y testun.
49. Opsiwn 3A yw'r opsiwn a gafodd ei ffafrio a'i ddilyn ac a gafodd ei ymgorffori yn y Ddeddf, gyda darpariaeth a wnaed yn adran 75 o'r Ddeddf ar gyfer yr elfen gofrestr ganolog o opsiwn 3B i'w ddilyn yn ddiweddarach pe bai awdurdodau lleol yn gytûn i greu un gofrestr Cymru gyfan.

Opsiynau sydd bellach dan ystyriaeth yn yr RIA hwn

50. Gan y derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017 a gwnaed darpariaeth o dan Ran 4 ar gyfer system trwyddedu, y fframwaith y nodir ar wyneb y Ddeddf, mae'r opsiynau i'w hystyried yn yr RIA hwn yn gyfyngedig. Yr opsiynau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yw:

Opsiwn 1 – gwneud dim: h.y. peidio â chychwyn unrhyw un o ddarpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf a pheidio â gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n ofynnol o dan Ran 4 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf;

Opsiwn 2 – cychwyn pob adran o Ran 4 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf a gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol sydd ei hangen.

51. Ystyriwyd hefyd a oes opsiwn canolradd i ddechrau rhai adrannau o Ran 4 ac nid eraill. Gan fod Rhan 4 o'r Ddeddf yn nodi cynllun trwyddedu unedig, byddai'n

anodd cychwyn rhai o'r darpariaethau ac nid eraill. Ystyrir felly nad oes opsiwn canol, h.y. i ddechrau rhannau penodol o Ran 4 yn unig a gwneud is-ddeddfwriaeth gyfyngedig gan fod Rhan 4 wedi'i chynllunio i weithio yn ei chyfanrwydd.

52. Mae'r costau a roddwyd ar gyfer yr Opsiynau blaenorol 1, 3A a 3B (Opsiwn 2 bellach) yn cael eu hadolygu yma wrth iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ond wedi'u diweddarau gyda'r costau cyfredol. Gwnaed rhywfaint o addasu hefyd i ystyried gweithdrefnau sydd wedi'u diweddarau, er enghraifft, llai o ddibyniaeth ar ddogfennau copi caled ar gyfer cyfathrebu.

Costau a buddion

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

Disgrifiad

53. Ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Darperir prif bwerau awdurdodau lleol ar gyfer rheoleiddio busnesau sy'n rhoi triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn eu hardal gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ('Deddf 1982').¹⁴ Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys y pŵer i gyflwyno is-ddeddfau at y diben o sicrhau glendid mangreoedd a gosodiadau cofrestredig, glendid unigolion cofrestredig (a'r rhai sy'n eu cynorthwyo), a glanhau a sterileiddio offer. Mae Gweinidogion Cymru wedi datblygu is-ddeddfau enghreifftiol cynhwysfawr sy'n adlewyrchu canllawiau cyfredol ar reoli heintiau ac arfer gorau'r diwydiant¹⁵. Mae'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf 1982 yn fabwysiadol ac felly gall awdurdodau lleol ddewis pa driniaethau y maent yn gyfrifol am eu rheoli, a pha un a ydynt am gyflwyno is-ddeddfau.
54. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1982 ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod saith wedi dewis mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru hyd yn hyn. Mae gan awdurdodau lleol eraill is-ddeddfau ar waith, ond mae'r rhain yn amrywio o ran cwmpas a chynnwys. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol is-ddeddfau sy'n ymdrin â thriniaethau penodol fel tatŵio, ac mae gan eraill is-ddeddfau sy'n berthnasol i bob triniaeth.
55. Gall awdurdodau lleol godi ffi gofrestru untro ar fusnesau sy'n cyflawni unrhyw un o'r triniaethau o dan Ddeddf 1982. Mae'r strwythurau ffioedd yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Mae pob awdurdod lleol yn codi ffioedd cofrestru ar fangreoedd lle y cyflawnir y triniaethau, ac mae rhai yn codi ffioedd cofrestru ar gyfer y fangre ac ymarferwyr unigol.

¹⁴ Adranau 14 ac 15, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1982/30>

¹⁵ Welsh model byelaws for acupuncture, tattooing, semi-permanent skin-colouring, cosmetic piercing, and electrolysis. <http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/acupuncture/?lang=en>

56. Mae'r ffi'n amrywio rhwng awdurdodau lleol hefyd. Rhwng £50 a £198 (cyfartaledd o £113) yw'r ffi gofrestru i fangreoedd; mae ffi gofrestru bersonol rhwng £49 a £112 (cyfartaledd o £69). Mae'r awdurdodau lleol hefyd yn codi ffioedd ychwanegol am amrywio cofrestriad.¹⁶ Ar hyn o bryd mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r ffioedd cofrestru hyn, yn ogystal â'r cyllid craidd a ddarperir i'r awdurdod lleol drwy'r grant cynnal refeniw, i dalu'r costau gorfodi yn y sector hwn. Yn ôl awdurdodau lleol, yn 2022 mae tua 3516 o gofrestriadau ymarferwyr personol a 1868 o gofrestriadau mangre ar draws Cymru.
57. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974¹⁷ yn gymwys ledled Cymru ac yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bob unigolyn sy'n rhoi triniaethau arbennig, gan gynnwys gweithwyr peripatetig sy'n rhoi triniaethau yng nghartref y cleient.
58. Gan mai dyma'r opsiwn llinell sylfaen nid oes unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r adran ganlynol yn cynnig amcangyfrif o'r costau y mae'r partïon amrywiol yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Llywodraeth Cymru

59. Nid oes unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chefnogi awdurdodau lleol mewn perthynas â'u pwerau o dan Ddeddf 1982.
60. Yn ogystal â Deddf 1982, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ('Deddf 1984') i wneud cais i Ynad Heddwch gyflwyno gorchymyn Rhan 2A at ddiben atal, rheoli i achos o haint neu halogiad neu ledaeniad haint neu halogiad, amddiffyn rhag hynny, neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd. Gallai'r gorchymyn ymwneud ag unigolion, pethau neu fangreoedd. Ers i'r pwerau ddod i rym yn 2010, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu defnyddio i wneud cais am orchymyn os byddant yn tybio bod perygl o haint neu halogiad lle mae triniaethau fel tatŵio a thyllu cosmetig yn cael eu cyflawni dan amgylchiadau anhylan. Yn RIA 2017, mynegwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o'r defnydd o'r pwerau hyn, gan ddefnyddio cyngor gan yr awdurdodau lleol a gweithwyr meddygol proffesiynol. Amcangyfrifwyd bod yr adolygiad blynyddol hwn wedi costio £2,500 mewn amser staff bob blwyddyn (yn seiliedig ar gostau Llywodraeth Cymru o £1,700, costau o £400 i'r awdurdodau lleol a chostau o £400 i Iechyd Cyhoeddus Cymru). Ers i'r RIA gael ei gyhoeddi ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhesymoli sut mae'n craffu ar orchymynion Rhan 2A ac wedi symud at fonitro gorchymynion a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol dros flwyddyn galendr a chyhoeddi rhestr o archebion a dderbyniwyd yn flynyddol, gan greu cyn lleied o gost â phosib a defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Cyhoeddir y rhestr lawn o bob gorchymyn Rhan

¹⁶ Gwybodaeth wedi'i darparu gan awdurdodau lleol.

¹⁷ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/introduction>

2A a adroddwyd i'r Prif Swyddog Meddygol yn ddwyieithog ar wefan Lywodraeth Cymru¹⁸.

Awdurdodau Lleol

61. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli busnesau sy'n cyflawni'r triniaethau mewn lleoliadau masnachol, a chynnal arolygiadau a gwaith cydymffurfriad gyda'r busnesau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n hylan ac yn unol â'u rhwymedigaethau statudol (gan gynnwys eu rhwymedigaethau lechyd a Diogelwch).
62. Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod saith awdurdod lleol wedi mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru hyd at fis Awst 2016. Amcangyfrifwyd mai tua £5,000 yw'r gost o fabwysiadu'r is-ddeddfau hyn i bob awdurdod lleol¹⁹. Fodd bynnag, daeth yn amlwg nad oes yr un awdurdod lleol ychwanegol wedi mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol mewn perthynas ag aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio ers 2017. Nid ydynt yn bellach yn debygol o wneud hynny oherwydd y rheoliadau triniaethau arbennig sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, felly gost i awdurdodau lleol yw dim.
63. Mae'r drefn arolygu'n amrywio yn ôl y driniaeth a gyflawnir a lefel y risg. Bydd awdurdod lleol yn cynnal arolygiad cychwynnol ar ôl derbyn cais i gofrestru mangre. Amcangyfrifir bod yr arolygiad hwn yn costio tua £170 a chaiff ei adfer gan y busnes sy'n gwneud y cais cofrestru. Rhwng 2019 a 2022, roedd 860 o gofrestriadau o fangreoedd newydd, sy'n arwain at gyfartaledd o 287 y flwyddyn ar gost flynyddol o £33,005. Telir y costau hyn trwy'r ffioedd cofrestru a delir gan fusnesau ac ymarferwyr.
64. Mae ymweliadau cydymffurfriad blynyddol yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a'r wybodaeth a ddefnyddir, felly ni chaiff bob mangre ymweliad bob blwyddyn. Mae'n anodd rhoi ffigwr ar faint fyddai'n cael ymweliad ledled Cymru, ond ar gyfer yr RIA, rydym wedi tybio bod tua hanner yr holl fangreoedd (ac eithrio cofrestriadau newydd) yn cael ymweliad bob blwyddyn, a fyddai'n 934 mangre. Amcangyfrifir bod un ymweliad cydymffurfriad yn costio £115. Ym mhob awdurdod lleol felly, amcangyfrifir bod ymweliadau cydymffurfriad yn costio tua £107,410 y flwyddyn.
65. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dynodi bod y cwynion a dderbynnir yn ymwneud â busnesau sy'n darparu gwasanaethau tatwio a thyllu cosmetig yn bennaf. Amcangyfrifir y ceir tua 187 o gwynion yn ymwneud â busnesau ac ymarferwyr sy'n cyflawni'r triniaethau hyn bob blwyddyn²⁰. Mae costau ymchwilio a gwaith dilynol yn gysylltiedig â chwyn yn amrywio, yn dibynnu ar gymhlethdod pob achos. Amcangyfrifir mai £1,900²¹ fesul cwyn yw'r gost i

¹⁸ [Deddfwriaeth diogelu iechyd: gorchmynion Rhan 2A 2010 i 2021 | GOV.WALES](#)

¹⁹ *Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.*

²⁰ Yn seiliedig ar ddata awdurdodau lleol sy'n dangos cwynion mewn perthynas â 10% o'r holl fusnesau cofrestredig, yn seiliedig ar 1868 mangre

²¹ Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.

awdurdod lleol am ymchwilio o gŵyn, sy'n cyfateb i gyfanswm o tua £355,300 bob blwyddyn ledled Cymru. O ran erlyniadau llwyddiannus, mae gan awdurdodau lleol yr opsiwn o gymryd camau i adfer eu costau. Mae'r tabl canlynol yn nodi amcangyfrif o'r costau arolygu a chydymffurfio dros bum mlynedd.

Tabl 2 - Costau awdurdodau lleol o ganlyniad i arolygu a gwaith cydymffurfiaid (Cymru gyfan) Cynllun Cofrestru Presennol

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Arolygiadau cychwynnol ar gyfer cofrestradau newydd	£33,005	£33,005	£33,005	£33,005	£33,005
Costau ymweliadau cydymffurfiaid	£107,410	£107,410	£107,410	£107,410	£107,410
Costau ymchwilio i gwynion	£355,300	£355,300	£355,300	£355,300	£355,300
Cyfanswm	£495,715	£495,715	£495,715	£495,715	£495,715

66. Pwerau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd i atal unigolion sy'n cyflawni'r triniaethau heb fod wedi'u cofrestru, yn enwedig os oes perygl i iechyd y cyhoedd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio pwerau yn Neddf 1984²² i wneud cais am Orchmynion Rhan 2A i atal unigolyn rhag ymarfer, er enghraifft ym maes tatŵio, oherwydd y risgiau y maent yn eu peri i iechyd y cyhoedd. Hyd at fis Rhagfyr 2022, gwnaed cyfanswm o 35 Gorchymyn Rhan 2A o ran tatŵio neu dyllu ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2010. Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 3 y flwyddyn, ond byddai defnyddio cyfartaledd yn rhoi ffigwr camarweiniol o faint o orchmynion rhan 2A y gofynnir amdanynt ar gyfer triniaethau arbennig. Mae awdurdodau lleol o'r farn ei fod yn fwy tebygol o fod yn 2 gais bob 3 blynedd. Amcangyfrifir bod y gost i awdurdod lleol am wneud cais a gweithredu gorchymyn Rhan 2A yn amrywio rhwng £800 a £3,000. Mae hyn yn cynnwys ffi o £210 y mae rhai llysoedd ynadon wedi ei gosod ar awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am orchymyn. Mae'r tabl isod yn dangos nifer flynyddol ragamcanol y gorchymynion Rhan 2A dros y bum mlynedd nesaf ac amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhain.

²² Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/14/part/3> Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchymynion Rhan 2A) (Cymru) 2010. Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/legislation/?lang=en>

Tabl 3 - Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 – gorchmynion Rhan 2a ar gyfer tatŵio a thyllu (Cymru gyfan)

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Nifer ragamcanol yr achosion	2	0	0	2	0
Costau cysylltiedig	£1,600-£6,000	0	0	£1,600-£6,000	0

67. Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario cyfanswm o rhwng £495,715 a £501,715 bob blwyddyn yn dibynnu p'un a oes angen unrhyw orchmynion Rhan 2A yn unrhyw flwyddyn. Mae cyfanswm y gwariant blynyddol rhwng £22,533 a £22,805 fesul awdurdod lleol. Fodd bynnag, gellir adfer tua £80,780 o'r cyfanswm gan yr ymarferwyr a'r busnesau newydd syn cofrestru yn ystod y flwyddyn trwy eu ffioedd cofrestru, fel y nodir o dan y costau i ymarferwyr a busnesau gan arwain at gyfanswm gwariant blynyddol diwygiedig gan awdurdodau lleol o rhwng £414,935 a £420,935.

Costau i'r GIG

68. Ceir costau i GIG Cymru o ganlyniad i ymdrin â chymhlethdodau sy'n deillio o'r triniaethau²³²⁴, megis heintiau bacteriol ar y croen, adweithiau alergaidd a'r afiechydon systemig mwy cyffredin sy'n deillio o'r effeithiau andwyol hyn ar iechyd, sef sepsis a sioc anaffylactig. Mae mwyafrif y costau'n deillio o driniaethau tatŵio a thyllu cosmetig. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi asesiad o rai o gostau'r triniaethau hyn at ddibenion enghreifftiol. Ond gan nad oes asesiad cywir o'r holl gostau ar gael, ni chawsant eu cynnwys yn y tabl cryno (tabl 6) ar ddiwedd yr opsiwn hwn. Er bod costau i'r GIG yn gysylltiedig ag ymdrin â chymhlethdodau yn dilyn aciwbigo, lliwio'r croen yn lled-barhaol ac electrolysis²⁵, ystyrir bod y rhain yn fach ac ni chawsant eu hasesu.
69. Mae'n hysbys y gall tyllu cosmetig arwain at gymhlethdodau, megis chwyddiadau, haint, gwaedu, alergedd a rhwyg neu anaf arall²⁶. Gallai niwed i nerfau a chreithio ddigwydd hefyd os caiff triniaethau eu cyflawni'n wael. Er bod hynny'n brin, gall pobl orfod cael eu derbyn i'r ysbyty hefyd yn sgil cymhlethdodau'n deillio o dyllu cosmetig a gallai fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol.
70. Cynhaliodd yr astudiaeth hon ddadansoddiad manylach o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â tyllu'r corff mewn pobl ifanc 16 i 24 oed ac amcangyfrifodd fod 5.1% o'r holl dyllu wedi arwain at orfod cael help gan fferylllydd, 3% gan feddyg teulu, 0.6% angen mynychu adran damweiniau ac achosion brys a 0.9% angen eu

²³ Sindoni, A et al, Health risks for body pierced community: a systematic review <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2022.01.035>

²⁴ Sindoni A, et al. [Adverse effects related to tattoos in the community setting: a systematic review - PubMed \(nih.gov\)](#)

²⁵ BMJ 2001;323:486

²⁶ Bone A, Ncube F, Nichols T and Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ 336 1426

derbyn i'r ysbyty. Tybir bod y rhai nad ydynt yn gofyn am gymorth pellach gan wasanaethau'r GIG wedi ailymweld â'r ymarferydd a wnaeth y driniaeth. Gan gymryd bod y patrwm hwn o fynediad at wasanaethau'r GIG yn cael ei efelychu ar draws yr holl grwpiau oedran, defnyddiwyd y data hwn fel sail i amcangyfrif nifer yr unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau'r GIG yng Nghymru a'r costau cysylltiedig (tabl 4 isod).

71. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata ar nifer y bobl sy'n cael tyllu'r corff am resymau cosmetig yng Nghymru, ac nid oes unrhyw dystiolaeth benodol am gyfradd y cymhlethdodau iechyd sy'n deillio o dyllu cosmetig, neu o datŵio. Gan fod data o wledydd eraill yn brin hefyd, seiliwyd amcangyfrif o'r costau iechyd ar y data mwyaf perthnasol sydd ar gael. Gwnaeth yr RIA blaenorol ddefnyddio o astudiaeth o UDA o 2006 i gyfrifo faint o'r boblogaeth sydd â thatŵs, yna defnyddiodd y ffigurau o astudiaeth Bone i gyfrifo faint o bobl â chymhlethdodau a gyflwynodd ym mhob math o ddarpariaeth iechyd ar gyfer triniaeth.
72. Tatŵio yw'r brif ffynhonnell arall o gostau i'r GIG o'r triniaethau arbennig hyn. Mae data a gyhoeddwyd o 2015 am ba mor gyffredin yw tatŵio yn y DU yn awgrymu bod gan 18.7% o bobl datŵs, (312 o 1669) er, rhif sampl bychan oedd gan yr arolwg hwn.²⁷
73. Cynhaliodd Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH), arolwg²⁸ o unigolion a oedd wedi profi o leiaf un driniaeth arbennig (tatŵio, microlafnu / microbigmentiad, tyllu cosmetig, aciwbigo ac electrolysis) yn y pum mlynedd flaenorol.
74. Er nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'w triniaeth (82%), roedd lleiafrif sylweddol (18%) wedi cael. O'r rhai a gafodd sgil effaith negyddol, roedd 10% angen triniaeth feddygol. Roedd gan yr arolwg hwn faint sampl bach iawn o 886, ac ni chofnodir llawer o'r manylion, ond gellir tynnu rhai casgliadau defnyddiol i lywio'r costau hyn. Mae'n cael ei awgrymu bod yr ystod oedran dros 18 oed (yr oedran cyfreithiol ar gyfer tatŵio) ac yn tynnu ar ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd.
75. Mae'r ystadegau diweddaraf o'r boblogaeth sydd ar gael o Gyfrifiad 2021 yn nodi bod poblogaeth Cymru yn 3,107,500 yn 2021²⁹. Nid yw data'r cyfrifiad yn cydberthyn yn uniongyrchol â nifer yr oedolion dros 18 oed, gan ei fod yn dibynnu ar grwpio oedran mewn bandiau 5 mlynedd, a'r man cychwyn agosaf yw 15-19 oed. Gan ddefnyddio hyn fel y man cychwyn, mae cyfanswm o 2,593,900 o bobl dros 15 oed yng Nghymru.
76. Gan ragamcanu'r ganran o arolwg YouGov y cyfeirir ato uchod o 18.7%, pe bai hyn yn cael ei gymhwyso i'r boblogaeth dros 15 oed, gellid casglu bod 485,059 wedi cael o leiaf un o'r triniaethau arbennig a restrir. Wrth gymhwyso'r canrannau o arolwg RSPH, gellir casglu bod 87,311 (18%) wedi cael cymhlethdodau a 8,731 o'r rheini (10%) wedi bod angen triniaeth feddygol. Yna,

²⁷ YouGov [Survey Report \(d25d2506sfb94s.cloudfront.net\)](https://survey-report.d25d2506sfb94s.cloudfront.net/)

²⁸ RSPH | [Skins and Needles](#)

²⁹ Population and household estimates, Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

gan gymhwyso'r canrannau o'r astudiaeth Bone ynglŷn â phwy gyflwynodd mewn unrhyw ddarpariaeth iechyd benodol i'r nifer hwn o 873, gellir cyfrifo arwydd bras o gostau fel y cyflwynir yn y tabl isod, er, dylid cadw mewn cof bod y rhain yn ddarluniadol yn unig.

77. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl priodoli costau cywir am driniaeth oherwydd yr amrywiadau mewn tâl i weithwyr iechyd proffesiynol yn dibynnu ar bwynt mewn graddfeydd cyflog, telerau contract y GIG ac ati. Mae Tariff y GIG³⁰ yn adnabod costau uned ar gyfer ystod eang o ymyriadau meddygol. Mae'r uned a ddefnyddir ar gyfer 'triniaeth croen canolradd, person dros 19 mlwydd'. Mae'r uned hon yn cwmpasu costau presenoldeb yn unig fel cleifion allanol, neu gleifion mewnol y dydd i uchafswm o 5 diwrnod. Nid yw cost yr uned yn cynnwys ymyriadau eraill fel profion, presgripsiynau neu bethau tafladwy fel dresins.

Rhagdybiaethau a wnaed: Ystod cyflog fferylllydd³¹ £33,706-£109,475, 37.5 awr yr wythnos; Tâl meddyg teulu wedi'i seilio ar gyfartaledd contract/cyflogedig³² o £97,600, 37.5 awr yr wythnos³³. Cymhwyswyd y safon ansawdd o 10 munud fesul ymgynghoriad â meddyg teulu³⁴ ac fe'i defnyddiwyd hefyd ar gyfer yr ymgynghoriad â fferylllydd.

Tabl 4 - Costau defnyddio gwasanaethau'r GIG ar ôl cael triniaethau arbennig

Disgrifiad o'r cymorth y gofynnwyd amdano ar ôl triniaeth	Nifer y rhai 15 oed a hŷn sy'n gofyn am gymorth bob blwyddyn n=8731	Cost uned	Cost flynyddol (£)
Ymgynghoriad â fferylllydd – 5.1%	445	£2.88 (ymgynghoriad 4.6 munud) £9.36 (ymgynghoriad 10 munud)	£1,282-£4,165
Ymgynghoriad â meddyg teulu a thriniaeth gwrthfotig-3%	262	£20.74 (am ymgynghoriad a £2.20 am gwrs saith diwrnod o wrthfotigau ar ffurf tabledi)	£6,010
Mynd i adran damweiniau ac achosion brys-0.6%	52	Cost yn anhysbys. Defnyddiwyd ymyrraeth berthnasol agosaf ar Tariff y GIG ar gyfer (triniaeth croen canolradd, person dros 19 oed) o £263	£13,676
Derbyn i'r ysbyty-0.9%	79	Cyfnod byr nad yw'n ddewisol fel claf mewnol £1,026 (yn seiliedig ar Dariff y GIG ar gyfer triniaeth croen canolradd, person dros 19 oed, y	£81,054

³⁰ NHS England, [NHS England » National tariff payment system](#)

³¹ [Pharmacist | Health Careers](#)

³² [GP Earnings and Expenses Estimates 2019/20 - NHS Digital](#)

³³ [General practice workforce: as at 31 December 2021 | GOV.WALES](#)

³⁴ [International variations in primary care physician consultation time: a systematic review of 67 countries | BMJ Open](#)

		dydd i'r uchafswm o 5 diwrnod).	
Total		-	£102,022- £104,905

78. Gall nifer o gyflyrau difrifol eraill ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r triniaethau hyn, fel y trafodir isod. Oherwydd bod cyflyrau o'r fath yn gymharol brin yng Nghymru, ni chyfrifwyd y costau yn y cyfrifiadau.
79. Mae'n bosibl y gall unrhyw driniaethau sy'n cynnwys treiddio'r croen arwain at drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed, fel hepatitis B, hepatitis C a HIV³⁵. Mae costau triniaeth ar gyfer yr heintiau hyn yn amrywio'n sylweddol, ond mae cwrs o driniaeth ar gyfer hepatitis C³⁶ yn costio rhwng £39,000 ac £80,000²⁴⁰.
80. Ceir cymhlethdodau difrifol hefyd a all godi yn sgil heintiau sy'n cael eu dal yn ystod triniaeth, er enghraifft haint ffugmonas yn gysylltiedig â rhoi twll yng nghartilag y corff, sy'n gallu arwain at yr angen am lawdriniaeth adlunio mewn achosion difrifol.
81. Mewn achosion anarferol, pryd y nodwyd diffygion sylweddol mewn arferion rheoli heintiau busnes, gall fod angen cyflawni ymarfer hysbysu cleientiaid ("edrych yn ôl"). Cynhelir ymarfer "edrych yn ôl" o'r fath i nodi unrhyw gleientiaid a allai fod wedi'u heintio gan feirws a gludir yn y gwaed ac mae'n cynnwys nodi cleientiaid trwy'r cofnodion i gysylltu â hwy a chynnig prawf perthnasol. Cafodd yr ymarfer edrych yn ôl, 'Ymarfer Seren' ei gyhoeddi ar 6 Mai 2015 ac roedd yn effeithio ar tua 700 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn bobl ifanc. Cynhaliwyd yr ymarfer mewn ymateb i wendidau difrifol o ran rheoli heintiau mewn stiwdio dyllu a thatwio yng Nghasnewydd. Achosodd hyn i nifer o gwsmeriaid gael heintiau difrifol ar y croen a oedd yn golygu bod rhaid iddynt dreulio amser yn yr ysbyty a chael llawdriniaeth adlunio ar ôl cael tyllau yn eu cyrff yn y stiwdio. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost yr ymarfer edrych yn ôl yn £240,159.³⁷ Mae costau ymarferion o'r fath yn debygol o amrywio'n fawr o achos i achos, a'r GIG fyddai'n gorfod eu hysgwyo yn bennaf. Fodd bynnag, oherwydd natur ysbeidiol ac anrhagweladwy ymarferion edrych yn ôl nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghostau blynyddol y GIG a'r awdurdodau lleol. Er mai yn anaml y byddai'n rhaid wynebu'r costau hyn, mae pob achos yn debygol o arwain at gostau sylweddol.
82. Mae cymhlethdodau eraill fel poen, anghysur a gorbryder yn arwain at gostau i unigolion yn ogystal â'r GIG. Er na ellir mesur lefel cymhlethdodau o'r fath, byddai unrhyw ostyngiad ynddynt o fudd i'r GIG. Gall cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i'r bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, ac mae

³⁵ Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-274

³⁶ Yn seiliedig ar brisiau sydd wedi'u rhestru gan NICE a BNF. ledipasvir-sofosbuvir (Harvoni) for treating chronic hepatitis C (Awst 2022)

³⁷ The Technical Report of a Blood-Borne Virus Look Back Exercise related to a body piercing and tattooing studio in Newport, South Wales. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 26 Gorffennaf 2016

achosion wedi eu cofnodi pan fo unigolion wedi marw ar ôl triniaeth tyllu cosmetig³⁸.

83. Yn ogystal â'r costau i'r GIG, gallai unrhyw gymhlethdodau iechyd o ganlyniad i'r triniaethau hyn arwain at gostau i gyflogwyr yng Nghymru os yw staff yn absennol neu'n llai cynhyrchiol. Ni fu modd mesur y gost economaidd hon.

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

84. Mae'n ofynnol i fusnesau sy'n darparu'r triniaethau dalu ffi gofrestru untro ar hyn o bryd. Fel y nodir uchod, mae'r ffioedd cofrestru'n amrywio rhwng awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y cofrestrir cyfartaledd o 287 o fangreoedd bob blwyddyn a bod 630 o ymarferwyr unigol yn cofrestru bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r ffioedd cyfartalog o £130 i gofrestru mangre a £69 ar gyfer unigolion, byddai hyn yn gyfanswm o £37,310 i gofrestru mangreoedd newydd a £43,470 i gofrestru ymarferwyr newydd bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai oddeutu £80,780 fyddai cyfanswm blynyddol y gost o ffioedd ceisiadau i fusnesau felly. Oherwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth godi ffioedd, megis y disgresiwn o ran codi am gofrestriadau personol, rhifau dangosol yn unig yw'r rhain.
85. Mae ymarferwyr a'r busnesau newydd hefyd yn wynebu costau o ran yr amser a gymerir i gwblhau cais. Er bod systemau ymgeisio awdurdodau lleol yn amrywio, amcangyfrifir bod cais yn cymryd oddeutu 30 munud i'w gwblhau. Gan dybio bod tâl gros cyfartalog yr awr ymarferydd yn £19.63 (£15.10 gyda 30% wedi'i ychwanegu ar gyfer argostau³⁹, a gan ddefnyddio'r un niferoedd cyfartalog o gofrestriadau o 630 o geisiadau unigol a 287 o geisiadau ar gyfer mangreoedd yn cael eu cyflwyno, amcangyfrifir mai oddeutu £9,005 y flwyddyn fyddai'r costau. Fodd bynnag, gall rhai fod yn gwneud cais ar gyfer cofrestru ymarferydd a mangre ar yr un pryd ac nid yw'n bosib meintoli hyn. Nid yw'n ofynnol adnewyddu ceisiadau ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1982.
86. Felly amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol i fusnesau o gofrestriadau newydd yw £89,785. Ni fyddai unrhyw gostau eraill i fusnesau sy'n cyflawni'r triniaethau hyn o dan yr opsiwn hwn.

³⁸ BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm ; BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757>

³⁹ ASHE 2020 revised edition Work Region Occupation Tabl 15.6a Hourly pay excluding overtime; (artist). [Earnings and hours worked, region by occupation by four-digit SOC: ASHE Tabl 15 - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://www.ons.gov.uk/earningsandhours) 247 Mae cyfraddau yr awr wedi'u cynyddu gan factor o 30% i £19.63 er mwyn ymgorffori argostau

Tabl 5 - Costau Ymarferwr a Busnes

Costau (£)	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Ffioedd cofrestru	£80,780	£80,780	£80,780	£80,780	£80,780
Cost amser y cais	£9,005	£9,005	£9,005	£9,005	£9,005
cyfanswm	£89,785	£89,785	£89,785	£89,785	£89,785

Tabl 6 - Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 1 – Gwneud dim

Sylwer: Nid yw costau'r GIG wedi'u cynnwys yn y tabl, gan nad oedd ond modd eu hamcangyfrir yn rhannol.

Tabl 6 - Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 1 – Gwneud dim

Costau (£)	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Costau i Lywodraeth Cymru					
Adolygiad blynyddol o Orchmynion Rhan 2A	0	0	0	0	0
A - Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru	0	0	0	0	0
Costau i awdurdodau lleol – tabl 2					
Arolygiadau cychwynnol ar gyfer cofrestriadau newydd	£33,005	£33,005	£33,005	£33,005	£33,005
Costau ymweliadau cydymffurfriad	£107,410	£107,410	£107,410	£107,410	£107,410
Costau ymchwilio i gwynion	£355,300	£355,300	£355,300	£355,300	£355,300
Gorchmynion Rhan 2A (Tabl 3)	£1,600 – £6,000	0	0	£1,600 – £6,000	0
Mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol	0	0	0	0	0
Cyfanswm y costau i awdurdod lleol	£497,315-£501,715	£495,715	£495,715	£497,315-£501,715	£495,715
Gwerth ffioedd cofrestru	-£80,780	-£80,780	-£80,780	-£80,780	-£80,780
B - Costau net i awdurdodau lleol **	£416,535-£420,935	£414,935	£414,935	£416,535-£420,935	£414,935
** Defnyddir y ffioedd cofrestru untro a wynebwr gan fusnesau ac ymarferwyr i wrthbwysu costau awdurdodau lleol					
Costau i Ymarferwyr a Busnesau – tabl 5					
Ffioedd cofrestru untro	£80,780	£80,780	£80,780	£80,780	£80,780
Amser ar gyfer paratoi'r cais	£9,005	£9,005	£9,005	£9,005	£9,005
C – Cyfanswm Costau i fusnesau	£89,785	£89,785	£89,785	£89,785	£89,785
Cyfanswm y costau **	£506,320 - £510,720	£504,720	£504,720	£506,320 -£510,720	£504,720
A+B+C					
** Mae costau cofrestru untro y mae busnesau ac ymarferwyr yn eu talu wedi cael eu cynnwys yma gan y cânt eu defnyddio i dalu am gostau'r awdurdodau lleol.					

Manteision

87. Mae'r opsiwn hwn yn parhau â'r safbwynt polisi cyfredol ac felly ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – a ddaeth yn gyfraith - Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig gyda chofrestr ganolog

Disgrifiad

88. Mae'r opsiwn hwn yn golygu Rhan 4 o'r Ddeddf pan fydd yn cychwyn yn creu cynllun trwyddedu cenedlaethol, gorfodol ar gyfer rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Diffinnir y triniaethau arbennig hyn yn y Ddeddf fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio (sy'n cynnwys lliwio'r croen yn lled-barhaol). Er mwyn cynnal unrhyw un o'r triniaethau arbennig hyn, byddai angen i unigolyn fod yn drwyddedig, a'r fangre (gan gynnwys cerbydau) lle y mae'n gweithredu fod wedi ei chymeradwyo. Byddai'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu ymarferwyr ac arolygu mangreoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf penodol cyn y gellid caniatáu trwydded neu gymeradwyo mangre. Rhagwelir na fyddai'r cynllun trwyddedu yn dod yn weithredol tan 2024 fan gynharaf – tan hynny, bydd y cynllun cofrestru presennol yn parhau.
89. Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau statudol ac anstatudol ar driniaethau arbennig i gynorthwyo ymarferwyr a busnesau i ddeall y ddeddfwriaeth a'i gofynion. Cynllunnir tair cyfres o ganllawiau i gyd:
- Canllawiau statudol sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol ar ddiffiniad 'person addas a phriodol' o dan adran 66(11);
 - Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth.
 - Canllawiau anstatudol ar gyfer ymarferwyr a busnesau i'w cynorthwyo nhw gyda'r rheoliadau newydd a gweithredu'r cynllun yn ei gyfanrwydd
90. Bydd angen gweithio gydag ymarferwyr a busnesau o'r sector, awdurdodau lleol, lechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill a chanddynt fuddiant er mwyn datblygu'r canllawiau hyn. Bydd copïau ar gael ar-lein, a bydd y dolenni'n cael eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i fusnesau ac ymarferwyr sy'n darparu triniaethau arbennig. Bydd y ddogfen canllawiau statudol hefyd yn destun ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ynghyd â'r rheoliadau drafft sydd i'w gwneud.
91. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu hyfforddiant ac arweiniad i awdurdodau lleol ar gynnwys y ddeddfwriaeth a dulliau gorfodi.
92. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynghylch y cynllun trwyddedu. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys dwy brif ran :
- a. Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr a busnesau o'r cynllun trwyddedu.

b. Lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd i roi gwybod iddynt am y cynllun trwyddedu, a'r risgiau o beidio â defnyddio ymarferydd trwyddedig/mangre gymeradwy neu gerbyd ar gyfer unrhyw driniaethau arbennig y maent yn dewis eu cael

93. Bydd y cynllun trwyddedu a gynigir o dan yr opsiwn hwn yn disodli'r cynllun cofrestru a amlinellir o dan opsiwn un (h.y. o dan Ddeddf 1982). Bydd y costau a amlinellir isod yn cael eu hysgwyddo yn lle'r costau o dan opsiwn un.

Costau

Llywodraeth Cymru

94. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd arbenigol ar sail lawn-amser i gynghori ar agweddau technegol ar y polisi triniaethau arbennig wrth ddatblygu'r cynllun statudol hwn ac i fwrw ymlaen ag agweddau amrywiol ar y gwaith triniaethau arbennig. Mae hwn yn drefniant secondiad 2 flynedd ac mae'n costio tua £84,000 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru.
95. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r ddwy gyfres o'r canllawiau anstatudol (un ar gyfer ymarferwyr a busnesau, a'r llall ar gyfer yr awdurdodau lleol), a dogfen canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo wrth bennu 'person addas a phriodol'. Byddai'r secondai y cyfeiriwyd ato eisoes yn darparu mewnbwn sylweddol i ddrafftio'r tair dogfen hyn, ac felly mae hynny eisoes wedi'i gostio. I baratoi'r tair cyfres o ganllawiau (25,000 o eiriau y ddogfen), disgwylir y byddai'n cymryd oddeutu tri mis o amser 0.25 uwchswyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i £4,068) a thri mis o amser 0.4 swyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i £3,996). Byddai hyn yn dod i gyfanswm o £8,064⁴⁰.
96. Disgwylir y byddai'r gwaith dylunio a chysodi yn gofyn am chwe wythnos o amser 0.5 swyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £2,498. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £7,500⁴¹. O ganlyniad, £33,900 yw cyfanswm y gost ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau a gaiff ei ysgwyddo yn 2023-24.
97. Pan gyhoeddwyd yr RIA ddiwethaf yn 2017, roedd dosbarthu'n dal i fod yn ddibynnol i raddau helaeth ar bostio copïau caled o ddogfennau. Er mwyn dosbarthu'r dogfennau canllaw byddai nawr angen anfon copi electronig drwy e-bost lle bynna bo hynny'n bosib at yr holl fangreoedd sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru Byddai fersiynau i'w lawrlwytho o'r canllawiau ar gael hefyd. Mae hi felly'n annhebygol y bydd angen darparu nifer sylweddol o gopïau wedi'u hargraffu o'r dogfennau canllaw na'u postio fel copi caled. Byddai copïau caled ar gael ar gais a'u hargraffu a'u postio ar gais drwy brosesau argraffu a phostio safonol Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd amcangyfrif faint o gopïau y

⁴⁰ Yn seiliedig ar Gostau Cynllunio Staff Llywodraeth Cymru.

⁴¹ Yn seiliedig ar £75 y 1000 o eiriau ar gyfer Cyfieithu = £1875 y ddogfen £25 y 1000 o eiriau ar gyfer prawf-ddarllen = £625 y ddogfen.

gellid cael cais amdanynt fel hyn, ond rhagwelir y bydd y nifer yn isel iawn a bydd y costau wedi'u llyncu o fewn y costau rhedeg safonol.

98. Byddai'r tri chanllaw yn cael eu diweddarau bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn cymryd oddeutu pythefnos o amser swyddog gweithredol uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £2,000. Byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn dod i hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £3,900. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad, gan mai dim ond ar ffurf electronig y byddai'n cael ei gynhyrchu. O ganlyniad, oddeutu £5,900 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad, a hynny bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2020-21.
99. Byddai sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion ieuchyd yr amgylchedd neu staff perthnasol arall awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i orfodi'r ddeddfwriaeth:
- 1 x Gweithdy 3 awr swyddog gorfodaeth (1 EHO uwch ac 1 EHO ardal i fynychu o bob awdurdod lleol)
 - 1 x Gweithdy 2 awr Swyddog Trwyddedu (1 Swyddog Trwyddedu i fynychu o bob awdurdod lleol)
 - 1 x Gweithdy 1 awr ar gyfer pwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol
 - 1 x Gweminar technegol 3 awr yn canolbwyntio ar fesurau atal a rheoli heintiau ac arferion triniaethau arbennig. Byddai hwn yn adnodd fyddai ar gael i swyddogion yr awdurdodau lleol ddiweddarau/adnewyddu eu cymhwysedd (mynychwyr tebygol – swyddogion ardal sy'n arolygu busnesau).
100. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar-lein gan y secondai arbenigol. Disgwylir y byddai pedair sesiwn yn cael eu cynnal a hynny yn 2023.
101. Roedd y costau a adnabuwyd yn yr RIA gwreiddiol mewn perthynas â'r hyfforddiant hwn yn seiliedig ar gontractio'r cyrsiau allan i gyflenwr hyfforddiant, a'u cyflwyno wyneb yn wyneb mewn lleoliadau gwahanol, gyda chopïau papur o ddeunydd y cwrs yn cael eu cynhyrchu. Cyfrifwyd mai oddeutu £1,600 fyddai cost gwreiddiol datblygu deunyddiau a thafleuni'r cwrs, ac oddeutu £3,200 fyddai cost cynnal y pedair sesiwn gyda 35 o bobl yn mynd i bob un ohonynt, sy'n dod i gyfanswm o £4,800. Gan y byddai'r cwrs bellach yn cael ei gyflwyno ar-lein gan y secondai arbenigol gyda deunyddiau y gellid eu llwytho i lawr, mae'r gost i Lywodraeth Cymru yn nemor ddim y tu hwnt i'r hyn y cyfrifwyd amdano eisoes yn y costau staff.
102. Rydym hefyd o'r farn y byddai'n ddoeth i'r secondai arbenigol ddarparu gweithdy 'hyfforddi'r hyfforddwr' i nifer o swyddogion ieuchyd yr amgylchedd arbenigol (i uchafswm o 8), a thrwy hynny sicrhau bod awdurdodau lleol â digon o offer i fynd â'r cynllun ymlaen gydag aelodau eraill o staff.
- 1 x Gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr 2 awr (EHOs arbenigol, uchafswm o 8 a fyddai'n cefnogi awdurdodau lleol cyfagos).
103. Eto, byddai'r rhain yn cael eu darparu ar-lein gyda deunyddiau i'w lawrlwytho, felly mae'r gost i Lywodraeth Cymru eisoes yn cael ei chynnwys yng nghost y

secondai. Byddai cost amser staff i awdurdodau lleol i'r bobl berthnasol fynychu'r cyrsiau, ond gan y byddent ar-lein, ni fydd costau teithio a chynhaliaeth yn daladwy. Byddai'r amser sydd ei angen i fynychu hyfforddiant yn cael ei ymgorffori mewn amser hyfforddi datblygiad proffesiynol parhaus blynyddol.

104. Byddai'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn canolbwyntio ar hysbysu ymarferwyr a busnesau, yn ogystal â'r cyhoedd, am y cynllun trwyddedu. Gan fod y ddeddfwriaeth yn cynnwys troseddau newydd, rhagwelir y byddai angen pecyn cyfathrebu eang i'w reoli'n bennaf mewn dulliau electronig, ond gellid ystyried rhai deunyddiau wedi'u hargraffu megis posteri. Er mwyn cyfathrebu ag ymarferwyr a busnesau sy'n darparu triniaethau arbennig, byddai Llywodraeth Cymru'n gofyn i awdurdodau lleol gyfathrebu'n uniongyrchol â'r rhai hynny a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth drwy e-bost lle bynnag y bo hynny'n bosibl, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Ar hyn o bryd, yr awdurdodau lleol sy'n cofrestru'r rhai hynny sy'n darparu'r triniaethau hyn, ac o ganlyniad, byddid yn defnyddio'r manylion cyswllt hynny.
106. Byddai straeon newyddion yn cael eu darparu i gyfnodolion masnach a rhwydweithiau rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol, a gellid codi mwy o ymwybyddiaeth o fewn y farchnad trwy dargedu gwefannau perthnasol. Byddai gwaith cyfathrebu ehangach yn canolbwyntio ar rybuddio'r cyhoedd, gan gynnwys pobl ifanc a rhieni, am y problemau iechyd posibl sydd ynghlwm wrth driniaethau arbennig a phwysigrwydd sicrhau bod yr ymarferwyr/busnesau yr ymwelir â hwy i gael triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datwio, wedi eu trwyddedu a bod y fangre/cerbyd lle y maent yn gweithio wedi eu cymeradwyo.
107. Bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd i elfen cofrestr gyhoeddus ar-lein y cynllun gorfodol pan roddir y trwyddedau a'r cymeradwyaethau cyntaf, i roi gwybod i'r cyhoedd bod yr adnodd hwn y gallant gyfeirio ato ar gael. Gallai hyn gynnwys cysylltiadau cyhoeddus, a byddwn yn defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda chynrychiolydd penodol i'r diwydiant. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm y gwaith hwn yn costio hyd at £10,000 ac y byddai'n gost untro a wynebier tua diwedd 2023 yn y cyfnod cyn i'r cynllun trwyddedu gorfodol ddod i rym, a hanner cyntaf 2024 pan roddir y trwyddedau ymarferwyr a'r tystysgrifau cymeradwyaeth eiddo/cerbyd cyntaf.
108. Er y disgwylir wynebu'r costau cyfathrebu yn 2023 a 2024, byddwn yn ystyried yr angen i ailadrodd y gwaith cyfathrebu yn ddiweddarach, er mwyn cynnal neu wella'r ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

Tabl 7 - Opsiwn 2 – Costau i Lywodraeth Cymru

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Secondai Arbenigol	£84,000	£84,000	0	0	0
Costau staff i ddatblygu/adolygu'r canllawiau	0	£8,064	0	0	£7,145
Dylunio a chyfieithu	0	£9,998	0	0	£4,999
Cyflwyno hyfforddiant i EHOs	0	0	0	0	0
Cyhoeddusrwydd	0	£10,000	0	0	0
Cyfanswm costau	£84,000	£112,062	0	0	£12,144
*costau cofrestru a ysgwyddir o dan y cynllun presennol (opsiwn 1)					

Awdurdodau Lleol

109. Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol orfodi gofynion y cynllun trwyddedu. Byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol drwyddedu'r unigolion hynny y maent o'r farn eu bod yn bodloni'r meini prawf diffiniedig a monitro i ba raddau y maent yn glynu wrth yr amodau trwyddedu, yn ogystal â chymeradwyo mangreoedd/cerbydau lle y gellir rhoi triniaethau arbennig. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol orfodi'r ddeddfwriaeth pan fo angen, gan gynnwys cymryd camau gweithredu i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cynnal gan ymarferwyr didrwydded ac mewn mangreoedd/cerbydau anghymeradwy. Fel y nodwyd yn opsiwn un, mae gan awdurdodau lleol bwerau cyfyngedig eisoes i reoli busnesau sy'n darparu gwasanaeth aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen ynllledbarhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, ac maent eisoes yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r busnesau hyn. Fodd bynnag, bydd y cynllun trwyddedu newydd yn cyflwyno gofynion llymach er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ac o ganlyniad, disgwylir y bydd angen cymryd mwy o gamau gorfodi o ran y triniaethau hyn.
110. Byddai cost amser staff cychwynnol i awdurdodau lleol fynychu sesiynau hyfforddi ar-lein ar y ddeddfwriaeth newydd a gorfodaeth, fel y nodir ym mharagraffau 98-102 uchod. Rhagwelir y bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno fel yn y tabl isod. Mae'r cyfraddau fesul awr a ddefnyddir i gyfrifo'r ffioedd staff wedi cael eu darparu gan awdurdodau lleol:
- Rheolwr Trwyddedu £53.54
 - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO) £42.73
 - Swyddog Trwyddedu £26.91
111. Mae hi felly'n debygol o gostio £11,215 i awdurdodau lleol o ran amser staff, a wynebid yn hanner olaf 2023-24.

112. Bydd gweithdy byr hefyd ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r pwyllgorau trwyddedu. Byddai presenoldeb yn y gweithdy hwn yn ffurfio rhan o'u dyletswyddau pwyllgorau, felly nid ydynt yn cael eu costio.

Hyfforddiant awdurdodau lleol – costau amser staff	2023-24
1 x Gweithdy 3 awr swyddog gorfodaeth – 1 EHO uwch ac 1 EHO ardal x22	£6,354
1 x Gweithdy 2 awr Swyddog Trwyddedu – 1 x 22	£1,184
1 x Gweithdy 1 awr ar gyfer pwyllgorau trwyddedu*	0
1 x Gweminar technegol 3 awr – 1 EHO ardal x22	£2,820
1 x Hyfforddi'r hyfforddwr 2 awr – EHOs arbenigol, uchafswm o 8	£857
Cyfanswm	£11,215

113. Bwriad y cynllun trwyddedu gorfodol yw bod costau ceisiadau prosesu yn dod o dan y ffi ymgeisio sy'n cael ei godi. Yn ogystal, oherwydd dyfarniad y Goruchaf Lys ar Hemmings v Westminster, bydd ffi ar wahân i ariannu'r gwaith o redeg y cynllun yn gyffredinol yn cael ei godi i ymarferwyr sydd wedi cael trwydded a mangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo. Bydd y ffioedd hyn yn cynnwys ymweliadau a chynghor i ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy, gweithgareddau cydymffurfio mewn perthynas â chyflwyno hysbysiadau ac unrhyw waith dilynol, cynnal y gofrestr gyhoeddus a chymryd camau yn erbyn ymarferwyr a mangreoedd sydd heb eu trwyddedu.

114. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ganlynol gan awdurdodau lleol i seilio'r costau yn yr adran hon.

Amcangyfrif o nifer yr ymarferwyr yng Nghymru 2022	3,516
Amcangyfrif o nifer y mangreoedd yng Nghymru 2022	1,868
Nifer cyfartalog cofrestriadau ymarferwyr newydd y flwyddyn	630
Nifer cyfartalog cofrestriadau mangreoedd newydd y flwyddyn	287
Enghraifft cost trwydded ymarferydd gorfodol	£150
Enghraifft cost ffi cydymffurfio – ymarferydd	£125
Enghraifft cost tystysgrif mangre/cerbyd gorfodol	£220
Enghraifft cost ffi cydymffurfio – mangre/cerbyd	£125

115. Mae'r amcangyfrif o niferoedd yr ymarferwyr a'r mangreoedd/cerbydau presennol a roddwyd uchod wedi'u darparu gan awdurdodau lleol yn seiliedig ar nifer y cofrestriadau a gawsant o dan y cynllun cofrestru presennol, er y gallai cofrestriadau fod wedi cael eu hystumio dros y pandemig a mwy o bobl wedi cofrestru i weithio drostynt eu hunain. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol o'r farn na fydd tua 5% o'r niferoedd hyn yn ymgeisio am y cynllun gorfodol am nifer o resymau: nifer o ymarferwyr na fyddai angen iddynt wneud cais i gofrestru o dan y cynllun newydd gan y byddent yn dal eithriadau fel aelodau o broffesiynau rheoledig. Yn ogystal, bydd eraill na fydd yn gwneud cais am drwyddedau gan eu bod wedi mynd i'r wal ers hynny, yn bwriadu ymddeol, neu yn rhoi'r gorau i wneud triniaethau arbennig os ydyn nhw'n ystyried nad yw'n gost effeithiol i barhau.

116. Rydym wedi rhoi costau enghreifftiol y trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo gorfodol a ffioedd cydymffurfio er mwyn darlunio, yn seiliedig ar wybodaeth am y costau presennol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Nid yw'r gwir ffioedd ar gyfer y cynllun gorfodol wedi'u gosod eto, felly gall fod yn fwy ymarferol. Y bwriad yw y

bydd ffioedd ymgeisio'r cynllun yn talu am y gost o brosesu, felly defnyddir y ffi ddarluniadol fel procsi ar gyfer cost yr awdurdod lleol.

Ymarferwyr trwyddedu

117. O ran trwyddedu ymarferwyr unigol, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried a phrosesu cais, ac os cytunir arno, gynhyrchu a rhoi trwydded. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded gynnwys llun o'r ddeiliad y drwydded; mae'r gost o gynhyrchu trwydded llun wedi ei chynnwys yn y ffi ymgeisio. Mewn rhai achosion, gallai fod angen i'r awdurdod lleol gyfarfod â'r ymgeisydd i drafod y cais, ond byddai hyn yn cael ei benderfynu ar sail pob achos unigol. O ganlyniad, nid oes unrhyw amcangyfrif wedi ei gynnwys ar gyfer trafodaethau o'r fath.
118. Amcangyfrifir bod 3,516 (2,086 yn flaenorol) o unigolion yn rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru ar hyn o bryd⁴². Pe na bai tua 5% o ymarferwyr cofrestredig presennol yn mynd ar ôl trwyddedu ymarferwyr ymhellach, byddai hyn yn golygu y byddai 3,340 o ymarferwyr presennol yn ymgeisio, gan ddechrau tua diwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Pe bai pob un o'r rhain yn gwneud cais ac yn pasio'r broses drwyddedu, amcangyfrifir y byddai'n costio £501,000 i'r awdurdodau lleol am brosesu a dosbarthu trwyddedau personol. Byddai'r swm hwn yn daladwy ychydig ar ôl i'r cynllun trwyddedu ddod i rym ym mlwyddyn galendr 2024. Tybiwyd y bydd 630 o geisiadau ar gyfartaledd gan ymarferwyr newydd bob blwyddyn ar gyfer Cymru gyfan, gan arwain at gostau trwydded i brosesu'r ymarferwyr newydd hyn o £96,000 y flwyddyn, o ddechrau blwyddyn galendr 2024 ymlaen. Gan y byddai trwyddedau'r ymarferwyr yn ddilys am dair blynedd, byddai'r costau hyn yn cael eu hailadrodd ar gyfer pob ymarferydd bob tair blynedd, yn dibynnu ar eu dyddiad cychwyn.
119. Tybir, ar gyfer y 630 o gofrestriadau newydd bob blwyddyn, y byddai nifer tebyg o'r garfan wreiddiol o ymarferwyr presennol yn rhoi'r gorau i fasnachu. Felly o'r 3,340 o ymarferwyr gwreiddiol a gafodd drwyddedau yn 2023-24, byddai 1,460 yn dal i fod mewn busnes yn gwneud cais i adnewyddu eu trwyddedau yn ystod 2026-27 ar gost o £219,000 i'r awdurdodau lleol.
120. Yn ogystal, bydd awdurdodau lleol yn cynnal ymweliadau cydymffurfio â'r holl ymarferwyr sydd â thrwydded yn ystod oes 3 blynedd y trwyddedau. Yn seiliedig ar gost amcangyfrifedig o £115 yr ymweliad, bydd yn costio £128,033 i awdurdodau lleol ar draws tair blynedd i ymweld â phob ymarferydd hyd at ddiwedd y cyfnod trwyddedu cyntaf. Mae'r ffigwr yn gostwng i £167,900 y flwyddyn ar gyfer y cylch 3 blynedd nesaf, gan y tybir at ddibenion costio y bydd 1,460 o'r garfan wreiddiol yn parhau i ymarfer. At ddibenion dangos cost y cais adnewyddu, nid yw'r ffigwr hwn wedi'i ddosrannu dros dair blynedd fel o'r blaen ond mae'n cael ei ddangos ym mlwyddyn ariannol 2026-27.

⁴² Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.

121. Tybiwyd y bydd unrhyw ymgeiswyr newydd bob blwyddyn yn cael ymweliad o fewn blwyddyn y cais, fydd yn ychwanegu £72,450 y flwyddyn yn rhagor at gostau'r awdurdod lleol.

Cymeradwyo mangreoedd a cherbydau

122. Er mwyn cymeradwyo mangre/cerbyd lle y rhoddir triniaethau arbennig, disgwylir y byddai'r awdurdod lleol yn prosesu'r cais ac yn cynnal ymweliad arolygu. Os yw'r fangre/cerbyd yn bodloni'r amodau gofynnol, byddai'r awdurdod lleol yn ei chymeradwyo ac yn rhoi tystysgrif cymeradwyaeth i'w harddangos. Rhagwelir y byddai'r gost i'r awdurdod lleol oddeutu £220 fesul mangre/cerbyd a gymeradwywyd⁴³. Amcangyfrifir bod 890 o fangreoedd/cerbydau lle y cynhelir y triniaethau arbennig diffiniedig yng Nghymru ar hyn o bryd⁴⁴. Fel yn achos yr ymarferwyr presennol, mae awdurdodau lleol o'r farn na fydd oddeutu 5% o'r safle/cerbydau cofrestredig presennol yn gwneud cais am gymeradwyaeth mangreoedd/cerbydau o dan y cynllun newydd am amryw o resymau. Mae hyn yn golygu y bydd tua 1,775 yn berthnasol yn 2023-24. Gan gymryd y bydd y cyfan o'r garfan hon yn cael eu cymeradwyo, amcangyfrifir mai £258,500 fyddai'r gost i awdurdodau lleol am brosesu a chyflwyno cymeradwyaethau ar gyfer mangreoedd/cerbydau yn 2023-24, sy'n cynnwys y flwyddyn galendr gyntaf arfaethedig o weithredu'r cynllun o 1 Ionawr 2024.
123. Gan y byddai'r cymeradwyaethau ar gyfer y mangreoedd/cerbydau yn ddilys am dair blynedd, byddai'r costau hyn yn cael eu hailadrodd bob tair blynedd. Fodd bynnag, at ddibenion cyfrifo costau, ni fyddai'r nifer cyffredinol o fangreoedd/cerbydau fyddai angen eu hadnewyddu yn y drydedd flwyddyn yn cynyddu oherwydd tybiwyd y bydd nifer gyfartal o fusnesau yn rhoi'r gorau i fasnachu ac yn dechrau masnachu bob blwyddyn. Felly yn y costau hyn, o'r 1,775 o fangreoedd/cerbydau gwreiddiol a ymgeisiodd yn 2023-24, tybir y byddai 914 yn dal i fasnachu yn 2026/27 i ymgeisio i adnewyddu, ar gost i awdurdodau lleol o £201,080. Fodd bynnag, mae yn seiliedig ar y gost o brosesu ceisiadau o £220 yn parhau'r un peth ar ôl tair blynedd.
124. Gan ddefnyddio amcangyfrif o nifer y mangreoedd/cerbydau presennol sydd wedi eu cofrestru a chost yr ymweliad cydymffurfio/arolygu o £115, bydd yn costio cyfanswm o £204,125 i ymweld â'r holl fangreoedd/cerbydau presennol ym mlwyddyn gyntaf y cynllun er mwyn eu harchwilio a'u cymeradwyo o dan y cynllun newydd. Rhagwelir y bydd 914 o'r garfan wreiddiol hon yn dal mewn busnes a fydd angen ymweliad adnewyddu i'w tystysgrif cymeradwyo mangreoedd/cerbydau yn 2026-27 ar gost o £105,110 i awdurdodau lleol.

Cydymffurfiaeth ymarferwyr a mangreoedd

125. Byddai awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn ystod cyfnod y drwydded neu gymeradwyaeth y fangre/cerbyd. Byddai hyn yn golygu gweithio gyda deiliaid trwydded a pherchnogion mangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel

⁴³ Figure provided by local authorities.

⁴⁴ Based on information provided by local authorities.

sy'n digwydd o dan y cynllun cofrestru presennol, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn cynnal ymweliadau cydymffurfio ar sail risg. Disgwylir y bydd pob mangre/cerbyd yn cael ymweliad yr eildro yng nghyfnod o 3 blynedd eu cymeradwyaeth ar gost debyg. Felly, mae'r costau cyffredinol hyn o £204,125 wedi'u dosrannu ar draws tair blynedd, gan y byddai rhai mangreoedd/cerbydau'n cael eu hail-ystyried yn yr un flwyddyn â'u hymweliad cymeradwyo cychwynnol. Ar draws pob awdurdod lleol, amcangyfrifir felly y bydd ymweliadau cydymffurfio yn costio tua £68,042 y flwyddyn. Gan y tybir y byddai 914 yn weddill o'r garfan wreiddiol o fangreoedd/cerbydau yn 2026-27, a chymryd bod y gost o ymweliadau cydymffurfio yn aros yr un fath, cyfanswm y gost am y tair blynedd ganlynol fyddai £105,110, ac fel o'r blaen nid yw wedi'i ddosrannu.

126. Tybiwyd y bydd 287 o fangreoedd/cerbydau newydd wedi'u hagar y flwyddyn, gan arwain at gostau ar gyfer prosesu ceisiadau'r busnesau newydd hyn o £63,140 y flwyddyn o ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Yn ogystal, bydd pob mangre/cerbyd newydd sy'n cael ei gymeradwyo hefyd yn cael ymweliad o leiaf unwaith yn rhagor yn eu cyfnod cymeradwyaeth o dair blynedd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u hamodau cymeradwyo. Ar £115 fesul ymweliad cydymffurfio, bydd hyn yn costio £33,005. Unwaith eto, gwnaed y rhagdybiaeth na fydd cost ymweld wedi newid yn 2026-27.
127. Mae'r costau cyffredinol i awdurdodau lleol ar gyfer prosesu ceisiadau mangreoedd/cerbydau yn debygol o gael eu goramcangyfrif, oherwydd y rhagdybiaeth y bydd pob cais yn cael ei gymeradwyo, a thrwy hynny fod angen ymweliadau. Mae'n annhebygol y bydd pob cais mangre/cerbyd yn cael ei gymeradwyo, ond yn yr un modd, nid yw'n bosib dweud gydag unrhyw sicrwydd faint o fangreoedd/cerbydau newydd fydd yn dechrau na faint o'r rhai presennol fydd yn mynd i'r wal.

Tabl 8 - Costau gweinyddu'r cynllun trwyddedu

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Nifer yr ymarferwyr presennol	3,516	3,340	2,710	2,090	1,460
Nifer y mangreoedd/cerbydau presennol	1,868	1,775	1,488	1,201	914
Ymarferwyr presennol – cais		£501,000	0	0	£219,000
Ymarferwyr presennol – ymweliad cydymffurfiad		£42,678	£42,678	£42,678	£167,900 **
Ceisiadau gan ymarferwyr newydd – 630 y flwyddyn		£96,000	£96,000	£96,000	£96,000
Ymweliad cydymffurfiad ymarferwyr newydd		£72,450	£72,450	£72,450	£72,450
Mangreoedd/cerbydau presennol – cais		£258,500	0	0	£201,080
Mangreoedd/cerbydau presennol – ymweliad cais		£204,125	0	0	£105,110
Ceisiadau mangreoedd/cerbydau newydd – 287 y flwyddyn		£63,140	£63,140	£63,140	£63,140
Ymweliad cais mangreoedd/cerbydau newydd		£33,005	£33,005	£33,005	£33,005

Subtotal applications/visits		£1,270,898	£307,273	£307,273	£957,685
Mangreoedd/cerbydau presennol – ymweliad cydymffurfriad		£68,042	£68,042	£68,042	£105,110 **
Mangreoedd/cerbydau newydd – ymweliad cydymffurfriad		£33,005	£33,005	£33,005	£33,005
Is-gyfanswm ymweliadau cydymffurfriad		£101,047	£101,047	£101,047	£138,115
Cyfanswm y costau	£48,790 *	£1,371,945	£408,320	£408,320	£1,095,800
*y costau cofrestru o dan y cynllun presennol (opsiwn un)					
**Byddai costau'r ymweliadau cydymffurfriad hyn yn cael eu dosrannu dros 3 blynedd nesaf y trwyddedau/cymeradwyaethau wedi'u hadnewyddu.					

128. Pe byddai awdurdod lleol yn gwrthod caniatáu, adnewyddu neu amrywio trwydded ymarferydd neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, byddai'n rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r ymgeisydd. Yn achos trwydded ymarferydd, gallai'r ymgeisydd wedyn gyflwyno sylwadau gerbron pwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol, ac os byddai'r pwyllgor yn gwrthod y cais. Câi'r ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad y pwyllgor i lys ynadon. Yn achos gwrthod cais yn ymwneud â thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio'n uniongyrchol i lys ynadon ac os caiff ei wrthod, i lys y Goron. Rhagwelir y bydd y broses hon wedi'i nodi o fewn rheoliadau.
129. Mae awdurdodau lleol o'r farn y bydd tua 5% o'r holl geisiadau ymarferwyr yn cael eu hapelio drwy'r pwyllgorau trwyddedu, a bydd canran debyg o apeliadau cais mangre/cerbyd yn cael eu clywed gan y llysoedd ynadon.
130. Mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif y byddai'n costio tua £166 iddynt drin pob apêl gan fod cost staff yr awdurdod lleol i brosesu pob apêl yr un peth waeth a yw'n cael ei glywed i ddechrau gan y pwyllgor trwyddedu neu'r llys ynadon.
131. Byddai hyn yn rhoi'r niferoedd apeliadau canlynol: yn 2023-24, 167 ymarferwyr presennol yn costio £27,722 ac yn 2026-27, byddai 73 o weddill y garfan bresennol yn apelio yn erbyn gwrthodiadau adnewyddu eu trwyddedau, gan gostio £12,118 yn eu tro. Hefyd byddai 32 o ymarferwyr newydd yn apelio bob blwyddyn ar gost o £5,312 i awdurdodau lleol.
132. Nid yw'n hysbys faint o ymarferwyr fyddai'n mynd ag apeliadau i'r llys ynadon pe baen nhw'n aflwyddiannus yn y pwyllgor trwyddedu. Mae ymholiadau a wnaed gyda bwrdeistrefi Llundain mewn perthynas â chynllun trwyddedu Llundain ar gyfer triniaethau arbennig yn awgrymu bod llai na 2% angen camau gweithredu gan y bwrdeistrefi a mynd gerbron y llysoedd. Byddai hyn yn rhoi ffigurau o 3 ymarferydd presennol yn 2023-24 yn costio £498, 1 yn 2026-27 ac yn llai na 1 ymgeisydd ymarferydd newydd y flwyddyn, yn costio £166 yr un.
133. Fel y dywedwyd yn flaenorol, y cam cyntaf o apelio am geisiadau mangreoedd/cerbydau sy'n cael eu gwrthod fydd i'r llys ynadon, ac mae awdurdodau lleol o'r farn y bydd 5% yn apelio fel hyn. Yn 2023-24, byddai 89 person yn rheoli mangreoedd/cerbydau'n apelio, yn costio £14,774 ac yn 2026-

27, o weddill y garfan bresennol, byddai 46 yn apelio gwrthodiadau i adnewyddu eu tystysgrifau cymeradwyo gan gostio £7,636. Yn ogystal, byddai 2 ymgeisydd newydd ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau yn apelio bob blwyddyn ar gost o £332 i awdurdodau lleol.

134. Yr ail gam o apeliadau pe bai person sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau'n colli apêl yn y llys ynadon fyddai i lys y Goron. Gan gymhwyso'r un ganran o 2% a nodwyd gan fwrdeistrefi Llundain, byddai hyn yn rhoi ffigwr o 2 fangre/cerbyd presennol yn 2023-24, 1 yn 2026-27 i'w adnewyddu; ac 1 mangre/cerbyd newydd bob blwyddyn. Ystyrir y gallai hyd yn oed hyn fod yn oramcangyfrif o'r niferoedd a allai fynd i apêl. Rhoddir tabl cryno o'r niferoedd y rhagwelir eu bod yn mynd i apelio yn y llysoedd a'r costau cysylltiedig yn nhablau 9 a 10.
135. Trafodir y gost i'r llysoedd ynadon am ddelio ag apeliadau a chlywed erlyniadau yn adran Effaith y System Gyfiawnder o'r RIA hwn.

Costau gorfodaeth - hysbysiadau

136. Pe byddai gan awdurdod lleol bryderon (wedi eu codi, er enghraifft, yn ystod ymweliad cydymffurfio neu drwy gŵyn) fod trwyddedai neu fangre/cerbyd gymeradwy yn torri eu hamodau trwyddedu mandadol/cymeradwyaeth, câi gyflwyno hysbysiad atal neu hysbysiad camau adfer i'r trwyddedai neu i'r unigolyn sydd â'r dystysgrif gymeradwyaeth ar gyfer y fangre/cerbyd, i'w gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau penodol, yn ddibynnol ar y risg i iechyd y cyhoedd. Byddai cyfnod cydymffurfio o 14 diwrnod o leiaf ar gyfer cymryd y camau a bennir, er mwyn osgoi cyflawni trosedd.
137. Byddai gan awdurdodau lleol y pŵer hefyd i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cynnal gan unigolion didrwydded neu mewn mangre/cerbyd anghymeradwy. Byddai angen i'r awdurdodau lleol nodi unigolion didrwydded, ac wedyn cyflwyno hysbysiad atal, a fyddai'n ei wahardd rhag rhoi triniaeth arbennig. Gan ddefnyddio profiad bwrdeistrefi Llundain, rydym o'r farn y bydd angen i tua 2% o'r holl ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau gael naill ai RAN neu hysbysiad atal wedi'i gyflwyno arnynt bob blwyddyn. Mae awdurdodau lleol Cymru wedi costio cyhoeddi pob rhybudd yn £23 yr un. Gan ddefnyddio'r niferoedd sy'n lleihau o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol o flwyddyn i flwyddyn a roddwyd yn y tabl blaenorol wedi'i ychwanegu at nifer y newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn, mae'n darparu'r costau blyneddol a gyflwynir yn nhabl 10 'Gorfodaeth a chostau gweinyddol eraill'.
138. Bydd gan ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau y gallu i apelio yn erbyn unrhyw hysbysiad sy'n cael ei gyflwyno arnynt, a byddai unrhyw apêl o'r fath yn cael ei chlywed gan y llys ynadon. Profiad awdurdodau lleol trwy'r cynlluniau trwyddedu cymharol agosaf yw mai ychydig iawn o unigolion sy'n apelio yn erbyn hysbysiadau. Felly, rydym wedi cymhwyso canran o 2% o'r nifer yr ydym wedi'u cyfrifo yn rhai sy'n gofyn am hysbysiadau ar gost o £166 yr un fel a roddwyd o'r blaen. Mae'r tabl cryno canlynol yn dadansoddi niferoedd pob math o gais ar bob cam o apêl a chmau gorfodaeth.

Tabl 9 - Tabl cryno – apeliadau a phrosesau gorfodaeth

	cyfredol	5% ddim yn gwneud cais	2023-24 Cychwyn	2024-25	2025-26	2026-27 Adnewyddu
Amcangyfrif o nifer yr ymarferwyr yng Nghymru 2022	3,516	3,340	3,340			
Amcangyfrif o nifer y mangreoedd/cerbydau yng Nghymru 2022	1,868	1,775	1,775			
Gostyngiad blynyddol (630 y flwyddyn) – ymarferwyr presennol				2,710	2,090	1,460
Gostyngiad blynyddol (287 y flwyddyn) – mangreoedd/cerbydau presennol				1,488	1,201	914
Nifer cyfartalog o gofrestriadau ymarferwyr newydd y flwyddyn	630	---	630	630	630	630
Nifer cyfartalog o gofrestriadau mangreoedd/cerbydau newydd y flwyddyn	287	---	287	287	287	287
5% o ymarferwyr apêl cam cyntaf i'r Pwyllgor Trwyddedu	Presennol	---	167	0	0	73
	Newydd		32	32	32	32
2% o'r 5% o ymarferwyr apêl ail gam i'r ynadon	Presennol		3	0	0	1
	Newydd		1	1	1	1
5% o fangreoedd apêl cam cyntaf i'r ynadon	Presennol		89	0	0	46
	Newydd		2	2	2	2
2% o'r 5% o fangreoedd ail gam apelio i Lys y Goron	Presennol		2	0	0	1
(canran yn llai na 1)	Newydd		1	1	1	1
Bydd gan 2% hysbysiaidau (pob math, yn flynyddol) - ymarferwyr	Presennol		167	136	105	73
- ymarferwyr	Newydd		32	32	32	32
- mangreoedd/cerbydau	Presennol		89	74	60	46
- mangreoedd/cerbydau	Newydd		14	14	14	14
Bydd 2% o'r 2% hwnnw o'r holl ymarferwyr/mangreoedd/cerbydau yn apelio hysbysiaidau			6	5	4	3

Atal gweithgarwch heb drwydded

139. Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf 1984 i gyflwyno cais am Orchymyn Rhan 2A, er mwyn atal unigolyn rhag rhoi triniaethau tatŵio neu weithgareddau tyllu anghofrestredig. Amcangyfrifwyd yn Opsiwn 1 y cyflwynir ceisiadau ac y caniateir 2 o Orchymynion Rhan 2A mewn cyfnod o dair blynedd ynglŷn â'r ymarferiadau hyn.
140. Byddai'r opsiwn hwn o gyflwyno cynllun trwyddedu triniaethau arbennig gorfodol yng Nghymru sydd bellach dan ystyriaeth yn darparu pwerau mwy cynhwysfawr ar gyfer ymdrin â gweithgaredd a waharddwyd, trwy broses symlach. O dderbyn

y dull mwy cynhwysfawr hwn, amcangyfrifir y gallai awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal mewn tua 50 o achosion ledled Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf. Er y byddai'r broses a nodir o dan yr opsiwn hwn yn wahanol i'r un y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf 1984, fe fyddai rhai elfennau tebyg o ran y gost o ymchwilio a gweithredu Gorchymyn Rhan 2A. Rydym wedi defnyddio'r ffigwr 2 achos mewn 3 blynedd yn Nhabl 10. O ganlyniad, amcangyfrifir mai o leiaf £1,600-£6,000 yr achos fyddai'r costau sy'n gysylltiedig ag atal gweithgaredd didrwydded/anghymeradwy yn ystod y flwyddyn gyntaf ((yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos) ⁴⁵.

141. Tybir wrth i fusnesau a'r cyhoedd ddod yn fwy cyfarwydd â'r ddeddfwriaeth dros amser, y byddai hyn yn gwella'r safonau, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr hysbysadau atal a RANs a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2026-27, ac wedyn y byddai'r nifer a gyflwynir yn aros yn sefydlog.
142. Gellid talu rhai o'r costau hyn pe byddai'r llys ynadon yn dyfarnu cyfraniad tuag at y costau erlyn i'r awdurdod lleol os yw'r achos yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gallai'r llys orchymyn hefyd i'r awdurdod lleol ddigolledu unigolyn am incwm y mae wedi'i golli. Nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys gan ei bod yn anodd eu hamcangyfrif oherwydd eu bod yn amrywio cymaint.

Cofrestr Gyhoeddus

143. Rhoddodd yr RIA gwreiddiol opsiwn i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol gadw cofrestr gyhoeddus i gael ei rhyddhau trwy greu un gofrestr ganolog y mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu ati. Mae awdurdodau lleol wedi dweud eu bod am arfer yr opsiwn hwn, a thrafodir hyn ymhellach ymlaen yn yr RIA hwn. Fodd bynnag, fe fyddai cost ar gyfer cynnal yr wybodaeth a sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae'r gost weinyddol i awdurdodau lleol er mwyn cadw cywirdeb eu data wedi ei gostio ar £30 y cofrestriad, felly gan ddefnyddio'r ffigurau a roddwyd yn flaenorol ar gyfer cofrestriadau cychwynnol a chofrestriadau newydd blyneddol a ddangosir yn y tabl isod, (tabl 10), amcangyfrifir y byddai'n costio tua £180,960 yn y flwyddyn gyntaf, £98,730 yn y drydedd flwyddyn (pan fyddai adnewyddiadau'n cael eu cofnodi) a £27,510 ar gyfer cofrestriadau newydd bob blwyddyn.
144. Byddai llywodraeth leol yn wynebu costau staff eraill yn gysylltiedig â'r canllawiau, codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ac ymdrin ag ymholiadau ad hoc ynghylch y ddeddfwriaeth newydd. Mae mynychu hyfforddiant ar y cynllun newydd wedi cael ei gostio ar wahân. Amcangyfrifir y byddai mwy o'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl ei chyflwyno, ac at ei gilydd, byddai'n dod i ddim mwy na'r hyn sy'n cyfateb i fis o amser swyddog iechyd yr amgylchedd cyfwerth ag amser llawn fesul awdurdod lleol bob blwyddyn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gan ostwng i hanner y swm hwn ar gyfer y blyneddodedd dilynol. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £139,129

⁴⁵ Based on the costs associated with current Part 2A Orders.

(£6,324.04 fesul awdurdod lleol) yn 2023-24 a 2024-25, a'r gost yn lleihau ar ôl hynny i oddeutu £69,564 (£3,162.02 fesul awdurdod lleol).

Tabl 10 - Gorfodaeth Awdurdodau Lleol a chostau gweinyddol eraill

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Ffigyrau cyfeirio:					
Nifer yr ymarferwyr presennol	3,516	3,340	2,710	2,090	1,460
Nifer y mangreoedd/cerbydau presennol	1,868	1,775	1,488	1,201	914
Nifer yr ymarferwyr newydd		630	630	630	630
Nifer y mangreoedd/cerbydau newydd		287	287	287	287
Apeliadau i bwyllgor trwyddedu – ymarferwyr presennol n= 167, 73	0	£27,722	0	0	£12,118
Apeliadau i bwyllgor trwyddedu – ymarferwyr newydd n= 32	0	£5,312	£5,312	£5,312	£5,312
Is-gyfanswm		£33,034	£5,312	£5,312	£17,430
Apeliadau i ynadon – ymarferwyr presennol n= 3, 1	0	£498	0	0	£166
Apeliadau i ynadon – ymarferwyr newydd n= 1	0	£166	£166	£166	£166
Apeliadau i ynadon – mangreoedd/cerbydau presennol n= 89, 46	0	£14,774	0	0	£7,636
Apeliadau i ynadon – mangreoedd/cerbydau newydd n = 2	0	£332	£332	£332	£332
Apeliadau i lys y goron – mangreoedd/cerbydau presennol n = 2, 1	0	£332	0	0	£166
Apeliadau i lys y goron – mangreoedd/cerbydau newydd n= 1	0	£166	£166	£166	£166
Is-gyfanswm		£16,268	£664	£664	£8,632
Cyflwyno hysbysiadau atal a RANS i ymarferwyr/mangreoedd/cerbydau presennol a newydd	355,300*	(n=302) £6,946	(N= 256) £5,888	(N=211) £4,853	(N= 165) £3,795
Apeliadau i ynadon yn erbyn hysbysiadau – holl ymarferwyr, holl fangreoedd/cerbydau	0	(N=6) £996	(N=5) £830	(N=4) £664	(N=3) £498
Atal gweithgareddau didrwydded	£1,600– £6,000 **	£1,600– £6,000	0	0	£1,600– £6,000
Cynnal data ar y gofrestr	0	£180,960	27,510	27,510	98,730
Costau cyffredinol eraill	0	£139,129	139,129	69,564	69,564
Is-gyfanswm	£356,900– £361,300	£329,631– £334,031	£173,357	£102,591	£174,187– £178,587
Cyfanswm y costau	£356,900– £361,300	£378,933– £383,333	£179,333	£108,567	£200,249– £204,649
*cost ymchwiliad cwynion o dan y cynllun cofrestru presennol (opsiwn un – tabl 2)					
** ystod cost mynd ar ôl Gorchmynion Rhan 2A (opsiwn 1 – Tabl 3)					

145. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi awdurdodau lleol iosod ffioedd rhesymol i dalu costau gweinyddu ceisiadau yn unol â dyfarniad y Goruchaf Lys Hemming v San Steffan⁴⁶ yn ogystal â gweithredu a gorfodi'r cynllun trwyddedu gorfodol. O ganlyniad, byddai modd i awdurdodau lleol adennill costau i raddau sylweddol wrth weinyddu'r cynllun. Byddai'r ffioedd trwyddedu/cymeradwyo, ynghyd â'r cyllid craidd a ddarperir i'r awdurdodau lleol trwy'r grant cynnal refeniw, yn talu'r gost o weithredu'r cynllun trwyddedu. Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio).

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio)

146. Byddai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn debygol o wynebu costau yn sgil yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer ymgeiswyr. Er yr amcangyfrifir mai oddeutu 25,000 o eiriau fydd y canllawiau, byddent yn amlinellu'n fanwl yr ymarfer a argymhellir ar gyfer pob triniaeth arbennig. Mae'n annhebygol felly y bydd angen i ymarferwyr ddarllen y ddogfen gyfan yn drylwyr. Tybir mai dim ond y canllawiau ar gyfer y driniaeth/triniaethau y maent yn eu cyflawni y byddai'r ymarferwyr a'r bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn eu darllen, sef chwarter y canllawiau cyfan, yn ôl yr hyn a amcangyfrifir. Gan y gellid erlyn ymarferwyr sy'n peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, rhagwelir felly y byddai angen mwy o amser ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwn (tair awr) nag yn achos opsiwn dau. Fodd bynnag, ystyrir bod y tybiaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, a nodir ar gyfer opsiwn dau, yn parhau i fod yn berthnasol. Byddai hyn yn awgrymu cyfanswm y gost ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo.
147. Rydym wedi amcangyfrif yn flaenorol bod cyfanswm o 3,340 o ymarferwyr o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd (2,086 gynt) a 380 o ymarferwyr newydd, a 1,775 o fangreoedd/cerbydau presennol yn debygol o wneud cais i'r cynllun newydd yn 2023-24. Yn ogystal, fel y rhoddwyd yn flaenorol, amcangyfrifir y byddai 630 o ymarferwyr newydd a 287 o fangreoedd/cerbydau newydd bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r gyfradd fesul awr ynghyd ag argostau a roddwyd yn flaenorol o dan Opsiwn 1, gellir cyfrifo'r gost i bob ymarferydd ac 1 person sy'n rheoli fesul mangre/cerbyd fel £58.89. Mae graddio hyn i fyny gan gyfanswm y niferoedd yr ydym wedi'u defnyddio ar gyfer pobl a fydd yn gwneud cais yn 2023-24 yn gyfanswm o £301,222 ar gyfer ymgeiswyr presennol, £54,002 ar gyfer ymgeiswyr newydd. Byddai costau blynyddol parhaus i ymarferwyr newydd a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd o £54,002.
148. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddarau bob tair blynedd, a gallai ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau sydd wedi parhau mewn busnes wynebu rhywfaint o gostau bryd hynny yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig a rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith. Fe gofir o'r tabl blaenorol (tabl 8) y

⁴⁶ R (on the application of Hemming (t/a Simply Pleasure Ltd) and others) (Respondents) v Westminster City Council (Appellant) – Y Goruchaf Lys

tybir, o'r garfan wreiddiol o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau, mae cyfanswm o 2,374 yn parhau mewn busnes yn 2026-7. Gan ddefnyddio'r un fformiwla, byddai hyn yn rhoi cyfanswm cost i'r ymarferwyr a'r personau sy'n weddill hyn sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau o £139,805. Fodd bynnag, gan mai canllawiau diwygiedig fyddai'r rhain, rhagwelir na fyddai'r costau hyn yn fwy na hanner y swm yma, sef amcangyfrif o £69,902. Disgwylir y byddent yn cael eu diweddarau am y tro cyntaf yn 2026-27.

149. Dylid nodi y bydd elfen o gyfrif dwbl yn y ffigurau hyn, gan y bydd cyfran o ymarferwyr hefyd yn berson sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau ac felly bydd yn gwneud cais am drwydded ymarferwr a chymeradwyaeth mangreoedd/cerbydau. Ceir hefyd y model busnes lle nad yw'r person sy'n rheoli mangre/cerbyd yn rhoi triniaethau arbennig eu hunain mewn gwirionedd. Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i allu adnabod pa gyfran o ymgeiswyr fydd â'r statws deuol hwn.

Tabl 11 - Costau ymgyswrtio i ymarferwyr

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Costau ymgyswrtio – ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol	0	£301,222	0	0	0
Costau ymgyswrtio – ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau newydd	0	£54,002	£54,002	£54,002	£54,002
Adolygu costau ymgyswrtio	0	0	0	0	£69,902
Cyfanswm y costau	0	£355,224	£54,002	£54,002	£123,904

150. Byddai'n ofynnol i ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau gyflwyno cais i'r awdurdod lleol am drwydded ymarferydd neu gymeradwyaeth ar gyfer mangre/cerbyd. Disgwylir y byddai'r broses hon yn un syml ac y byddai'n cael ei dilyn ar-lein yn y rhan fwyaf o'r achosion. Er mai'r bwriad fyddai cadw'r broses mor syml â phosibl, byddai'r staff yn treulio rhywfaint o amser yn cwblhau'r cais.
151. Roedd yr RIA blaenorol yn tybio y byddai'r ffurflen gais am drwydded ymarferydd yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau a'r cais cymeradwyo mangreoedd/cerbydau yn cymryd 1.5 awr. Fodd bynnag, mae gwaith sydd wedi'i wneud wedi hynny yn awgrymu bod cwblhau pob ffurflen a chasglu tystiolaeth ddogfennol ategol angenrheidiol yn debygol o gymryd 1.5 awr fesul ffurflen gais i'w llenwi ar gost o £29.45 fesul ymgeisydd. Er bod gwybodaeth gyffredin a fyddai'n cael ei chynnwys yn y ddau fath o ffurf, mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddogfennol yn wahanol i ymarferwyr o gymharu â mangreoedd/cerbydau, felly gall person sy'n gwneud cais am y ddau fath o drwyddedu gymryd yr un faint o amser ar bob un. Fel y nodwyd eisoes, nid yw'n bosibl mesur faint o bobl fydd yn gwneud cais am y ddau. Byddai angen i drwydded triniaethau arbennig ymarferydd gynnwys llun o ddeiliad y drwydded. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu bod angen i'r ymgeisydd fynd i swyddfa'r awdurdod lleol i gael tynnu'r llun. Gan ddefnyddio'r niferoedd o ymarferwyr, mangreoedd/cerbydau a chyfraddau yr awr o'r tabl blaenorol, gellir cyfrifo cost cwblhau'r ffurflenni.

152. Yn ogystal, bydd gan awdurdodau lleol y pŵer i ofyn i ymarferydd ddarparu Tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Sylfaenol (DBS) fel rhan o'r broses ymgeisio, a chynigir y dylai person sy'n rheoli mangre hefyd ddarparu tystysgrif DBS sylfaenol. Cost gwneud cais am dystysgrif o'r fath yw £18, sydd wedi gostwng o'r £25 a ddyfynnwyd yn y RIA blaenorol⁴⁷. Bydd y gost hon yn berthnasol ar gyfer pob cais newydd neu adnewyddu cais. Felly, bydd y gost hon yn berthnasol ar y cais cychwynnol ac yna bob tair blynedd ar adnewyddu.
153. Amcangyfrifir mai oddeutu £242,707 fyddai cyfanswm y costau am gyflwyno ceisiadau yn 2023-24 ar gyfer ymarferwyr presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau. Byddai costau blyneddol o £43,512 ar gyfer cwblhau ceisiadau newydd. Byddai'r trwyddedau'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, ond tybir y byddai'r gost i fusnes am gwblhau'r ceisiadau yn cael ei haneru gan y byddai'r broses yn symlach, yn seiliedig ar ddiweddarau gwybodaeth, yn ogystal â'r nifer llai o'r garfan hon sydd dal mewn busnes.

Tabl 12 - Cost cyfle cwblhau cais

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Ceisiadau ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol (n=5,115)	0	£150,637	0	0	0
Adnewyddu trwydded ymarferwyr/cymeradwyaeth mangreoedd/cerbydau (n=2,374)	0	0	0	0	£34,957
Tystysgrif DBS sylfaenol – ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau presennol	0	£92,070	0	0	£42,732
Is-gyfanswm	0	£242,707	0	0	£77,689
Ceisiadau ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau newydd (n=917)	£89,785	£27,006	£27,006	£27,006	£27,006
Tystysgrif Datgeliad Sylfaenol – ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau newydd	0	£16,506	£16,506	£16,506	£16,506
Is-gyfanswm	£89,785	£43,512	£43,512	£43,512	£43,512
Cyfanswm y costau	£89,785*	£286,219	£43,512	£43,512	£121,201
*y gost o dan y cynllun cofrestru presennol (opsiwn un)					

154. Yn ychwanegol at yr amser staff ar gyfer y broses o wneud cais, byddai ffi ymgeisio yn cael ei chodi am gael trwydded ymarferydd neu gymeradwyaeth mangre/cerbydau. Mae strwythur y ffi eisoes wedi'i drafod yn adran 'awdurdodau lleol' ar gyfer yr opsiwn hwn ac mae wedi'i gynnig y byddai'r rhain wedi'u cytuno a'u gosod gan ffioedd awdurdod lleol ar gyfer Cymru gyfan yn unol â dyfarniad Hemming. Nid yw'r ffioedd hyn wedi'u trafod a'u cytuno eto, felly i ddibenion dangosol yn unig, enghraifft o gost ar gyfer trwydded ymarferydd fyddai £150 ac enghraifft o gost ar gyfer cymeradwyaeth mangre/cerbyd fyddai £220.

⁴⁷ Gofyn am wiriad DBS sylfaenol - GOV.UK (www.gov.uk)

155. Oherwydd dyfarniad Hemming v Westminster, mae'n rhaid codi costau rhedeg y cynllun yn ei gyfanrwydd ar wahân i'r ymarferwyr a'r mangreoedd/cerbydau hynny sydd wedi'u trwyddedu/cymeradwyo, ar ffurf 'ffi cydymffurfio'. Darluniau o'r ffioedd hyn at ddiben y cyfrifiadau costau hyn yw £125 ar gyfer ymarferwr a £125 ar gyfer mangreoedd/cerbydau. Bydd angen i bob ymarferydd presennol a pherson sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau wneud cais o dan y cynllun newydd. Byddai hyn yn dod i gyfanswm cychwynnol iddyn nhw o £1,530,875 a fyddai'n cael ei hysgwyddo yn 2023-24. Gan dybio bod 630 o ymarferwyr newydd yn dechrau bob blwyddyn, a 287 o fangreoedd/cerbydau newydd, byddai costau blyneddol rheolaidd o £272,265 ar gyfer trwyddedau a chymeradwyaethau newydd.
156. Byddai trwyddedau ymarferwyr a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, fel y manylir yn nhabl 13 isod. Mae'r rhain yn debygol o ddenu'r un ffioedd ymgeisio a chydymffurfio â cheisiadau cychwynnol, er nad yw'r ffioedd hyn wedi'u cyfrifo eto. O ddefnyddio'r ffigurau blaenorol, mae'n debygol mai oddeutu £905,200 fydd y gost adnewyddu i'r ymarferwyr gwreiddiol hynny a'r bobl hynny sy'n rheoli mangre/cerbyd ac sy'n dal i gynnal busnes yn 2026-27.

Tabl 13 - Costau ymgeisio a chydymffurfio

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Costau ceisiadau ymarferwyr presennol n=3,340	£89,785*	£501,000	0	0	0
Ffi cydymffurfiaeth ymarferwyr presennol n=3,340	0	£417,500	0	0	0
Costau adnewyddu ymarferwyr N=1,460	0	0	0	0	£401,500
Costau ymgeisio mangreoedd/cerbydau presennol n=1,775	0	£390,500	0	0	0
Ffi cydymffurfiaeth mangreoedd/cerbydau presennol n=1,775	0	£221,875	0	0	0
Costau adnewyddu – mangreoedd/cerbydau N=1,460	0	0	0	0	£503,700
Is-gyfanswm	£89,785*	£1,530,875	0	0	£905,200
Ceisiadau ymarferwyr newydd n=630	0	£94,500	£94,500	£94,500	£94,500
Ffioedd cydymffurfiaeth ymarferwyr newydd n=630	0	£78,750	£78,750	£78,750	£78,750
Costau ceisiadau mangreoedd/cerbydau newydd n=287	0	£63,140	£63,140	£63,140	£63,140
Ffi cydymffurfiaeth mangreoedd/cerbydau newydd n = 287	0	£35,875	£35,875	£35,875	£35,875
Is-gyfanswm	0	£272,265	£272,265	£272,265	£272,265
Cyfanswm y costau	£89,785 *	£1,803,140	£272,265	£272,265	£1,177,465

157. Disgwylir y byddai mwyafrif yr ymarferwyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Byddai hysbysiad atal neu Hysbysiad Camau Adfer (RAN) yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i achosion o dorri'r ddeddfwriaeth, megis rhoi triniaethau arbennig heb fod â thrwydded neu dorri amodau trwydded, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. gynnal triniaethau arbennig mewn mangreoedd nad ydynt wedi eu cymeradwyo. Byddai torri'r ddau fath hyn o hysbysiad yn destun dirwy anghyfyngedig i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Nid yw'n bosibl rhoi ffigur pendant ar gyfer y dirwyon a roddid, gan y byddai gan y llysoedd ynadon lawer o ddisgresiwn ynghylch hyn. Fodd bynnag, at ddibenion yr ymarfer hwn, defnyddiwyd dirwy o £5,000 i gyfrifo'r costau.
158. Amcangyfrifwyd yn gynharach (Tabl 9) y gellid cyflwyno oddeutu 50 hysbysiad atal neu RAN i unigolion yn y flwyddyn gyntaf. Amcangyfrifodd yr RIA blaenorol y byddai tua 20% o'r rhain yn arwain at ddirwy – cyfanswm o 60, felly £300,000 fyddai cyfanswm y gost flynyddol. Amcangyfrifwyd yn gynharach hefyd yn yr un tabl y byddai gostyngiad o 10% yn nifer yr hysbysiadau atal a RANs a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd y lleihad tybiedig yn nifer y garfan bresennol o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau o flwyddyn i flwyddyn. Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o 33 yn derbyn dirwyon yn 2026-27 ar gost o £165,000. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi fyddai'n cadw'r enillion o'r ffioedd hyn. Rhagwelir mai nifer fach iawn o apeliadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn erbyn hysbysiadau atal neu RANs.
159. Yn ogystal, caniateir i unrhyw ymarferydd neu berson sy'n gyfrifol am fangreoedd/cerbydau sy'n dymuno apelio i'r llys ynadon yn erbyn gwrthod cais neu yn erbyn hysbysiad (fel y nodir yn Nhabl 9) gael ffi gan y Gwasanaeth Llysoedd. Pwrpas y ffi hon fyddai cofrestru'r apêl, a gellir defnyddio ffi gwrandawriad pellach hefyd, a bydd yn rhaid i'r apelydd dalu'r costau hyn. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan ymgynghoriad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder, felly nid yw manylion am unrhyw ffioedd a allai fod yn daladwy ar gael eto. Fel arwydd, ffi⁴⁸ gyfredol Llys Sifil a Theulu presennol i gyflwyno apêl yn y Llys Sirol yn £151 (ac eithrio unrhyw ffioedd gwrandawriad perthnasol), ac mae'r swm hwn wedi'i gymhwyso i'r niferoedd sy'n dod ag apeliadau a nodwyd yn flaenorol yn Nhabl 9.
160. Gan nad yw'r mater o ffioedd llys wedi'i setlo, nid yw'r cyfansymiau yn y tabl 14 canlynol wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cryno cyffredinol ar ddiwedd y ddogfen hon.

⁴⁸ EX50 - Civil and Family Court Fees (publishing.service.gov.uk)

Tabl 14 - Costau i fusnesau – ffioedd a dirwyon y llysoedd

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Dirwyon (holl ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau)	0	N=60 £300,000	N=51 £255,000	N=42 £210,000	N=33 £165,000
Ffioedd llys – apeliadau i ynadon	0	N=101 £20,301	N=8 £1,208	N=7 £1,057	N=53 £8,003
Ffioedd llys – apeliadau i lys y goron	0	N=1 £151	N=1 £151	N=1 £151	N=1 £151
Cyfanswm ffioedd*	0	£300,000	£255,000	£210,000	£165,000
Cyfanswm ffioedd*	0	£20,452	£1,359	£1,208	£8,154

* symiau dangosol yn unig – gall gwerth y dirwyon a'r ffioedd amrywio'n sylweddol

161. Rhagwelir y byddai'r ymarferwyr a'r bobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau, yn y rhan fwyaf o'r achosion, yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflawni'r camau adfer a argymhellwyd ac yn cydymffurfio ag unrhyw hysbysiadau a gyflwynir. Gan y gallai cost camau adfer i fusnesau unigol amrywio'n fawr, ac nad yw'n hysbys hyn o bryd, nid yw wedi ei hamcangyfrif yma.

Asesiad o'r Gystadleuaeth

162. Bydd gofyn i bob ymarferwr presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau wneud cais am drwydded a/neu gymeradwyo mangreoedd/cerbydau yn ogystal â newydd-ddyfodiaid. Disgwylir y bydd y ffioedd ymgeisio a chydymffurfio yr un fath ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, felly bydd pob ymgeisydd yn gorfod talu'r un taliadau. Gan y byddai unrhyw gostau a ysgwyddir gan fusnesau mewn perthynas â hyfforddiant neu wrth gyfarparu mangre i fodloni safon angenrheidiol ar gyfer cymeradwyaeth yn gymesur â maint y busnes, felly disgwylir mai effaith fach a welir ar gystadleuaeth. Hefyd, gallai trefn reoleiddio well roi mwy o hyder i'r cyhoedd yn y sector triniaethau arbennig yng Nghymru ac arwain at gael mwy o gwsmeriaid

Opsiwn a ffefrir: cychwyn holl ddarpariaethau Rhan 4 ac Atodlen 3

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb le neu na
C1: Yn y farchnad(oedd) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad(oedd) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad(oedd) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Na

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
	le neu na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill?	I ddechrau parthed offer yn y gweithle ac ati?
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	O bosib bydd rhai yn mynd i'r wal?
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu botensial nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu bodloni?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu botensial nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu bodloni?	Na
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	Na

Nodiadau

C4: Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu hawliau tad-cu ar gyfer ymarferwyr a busnesau presennol. Bydd angen i bob ymarferydd sy'n gweithredu ar hyn o bryd a phob perchennog mangreoedd neu gerbydau a ddefnyddir ar gyfer y triniaethau arbennig penodedig wneud cais am drwyddedau a thystysgrifau mangre o dan y cynllun newydd arfaethedig. Gan fod safon y cymhwysedd i'w harddangos a'r amodau trwyddedu yn llawer mwy trylwyr nag y mae'r cynllun cofrestru presennol yn ei ganiatáu, mae'n bosibl y bydd rhai ymarferwyr a busnesau yn gweld y cynllun trwyddedu newydd yn heriol yn ariannol, ac efallai na fydd rhai yn mynd drwy'r broses trwyddedu yn y pen draw. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud gyda'r ymarferwyr presennol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o safonau fydd eu hangen yn y dyfodol, ac mae llawer eisoes yn cyrraedd y safonau hynny.

C5: am y rhesymau a amlinellir yn C4 uchod, mae'n bosibl y bydd nifer yr ymarferwyr a'r mangreoedd trwyddedig yn newid oherwydd y cynllun trwyddedu arfaethedig yn y tymor byr yn dilyn cyflwyno'r cynllun

Y Llysoedd

163. Gellid cyflwyno apeliadau i'r llys ynadon mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth - megis apêl yn erbyn gwrthod cais am drwydded ymarferydd sydd eisoes wedi bod gerbron y pwyllgor trwyddedu, neu wrthod cais cymeradwyo mangre/cerbyd, neu yn erbyn dirwyon a godwyd ynglŷn â chamau gorfodi, megis torri amodau hysbysiad camau adfer. Fodd bynnag, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn

cynorthwyo ymarferwyr a busnesau, ac yn rhoi'r cyfle iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cyn cymryd unrhyw gamau ychwanegol. Gan y byddai llawer o sylwadau'n cael eu clywed yn gyntaf gan bwyllgor trwyddedu awdurdodau lleol, disgwylir mai nifer fach iawn o apeliadau a fyddai'n cael eu cyflwyno i lys ynadon – mae'r niferoedd a ragwelir bob blwyddyn wedi'u nodi yn Nhabl 6 ac yn lleihau mewn nifer bob blwyddyn o 102 yn 2023-24 i 54 yn 2026-27.

Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

164. Mae ffurflen Nodi'r Effaith y System Gyfiawnder (JSII) wedi'i chwblhau ar gyfer y cynllun trwyddedu gorfodol yn ei gyfanrwydd i adnabod yr effaith ar y llysoedd ynadon o wrandawiadau apeliadau a'r system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael copi o'r JSII, fel rhan o ymgynghoriad ar wahân gyda nhw i adnabod fframwaith costau manwl o'r gost ar gyfer yr apeliadau hyn. Bydd y costau hyn a chanlyniad yr ymgynghoriad ar wahân hwn gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol yr RIA hwn. Bydd hyn hefyd yn llywio'r Asesiad Effaith Cyfiawnder i'w gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol terfynol i'r rheoliadau sydd i'w gwneud mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu gorfodol.

Tabl 15 - Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2

Sector	Blwyddyn				
	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Costau i Lywodraeth Cymru (tabl 7)					
Secondai Arbenigol	£84,000	£84,000	0	0	0
Costau staff ar gyfer datblygu/ adolygu'r canllawiau	0	£8,064	0	0	£7,145
Dylunio a chyfieithu	0	£9,998	0	0	£4,999
Sesiynau hyfforddi ar gyfer EHOs	0	0	0	0	0
Cyhoeddusrwydd	0	£10,000	0	0	0
Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru (A)	£84,000	£112,062	0	0	£12,144
Costau i awdurdodau lleol – gweinyddiaeth – tabl 8					
Amser staff ar gyfer hyfforddiant	0	£11,215	0	0	0
Ceisiadau ymarferwyr a mangreoedd/ cerbydau ac ymweliadau cysylltiedig	0	£1,270,898	£307,273	£307,273	£957,685
Ymweliadau cydymffurfio blynyddol	0	£101,047	£101,047	£101,047	£138,115
Gorfodaeth a chostau gweinyddol eraill – (tabl 10)					
Apeliadau i bwyllgorau trwyddedu	0	£33,034	£5,312	£5,312	£17,430
Apeliadau i lysoedd ynadon/y goron	0	£16,268	£664	£664	£8,632
Cyflwyno hysbysiadau atal a RANS		£6,946	£5,888	£4,853	£3,795
Apelio yn erbyn hysbysiadau	0	£996	£830	£664	£498
Atal gweithgaredd anhrwyddedig	0	£1,600–£6,000	0	0	£1,600–£6,000
Cynnal data ar y gofrestr	0	£180,960	£27,510	£27,510	£98,730

Costau cyffredinol eraill	0	£139,129	£139,129	£69,564	£69,564
Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol (B)		£1,762,093 -£1,766,493	£587,653	£516,887	£1,296,049- £1,300,449
Costau i Ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau – (Tablau 11-14)					
Costau ymglyfarwyddo â'r canllawiau	0	£355,224	£54,002	£54,002	£123,904
Costau cyfle cwblhau cais	0	£286,219	£43,512	£43,512	£121,201
Ffioedd ymgeisio a ffioedd y cynllun – (tabl 13) ‡	0	£1,803,140	£272,265	£272,265	£1,177,465
ffioedd (symiau dangosol yn unig – tabl 14)	0	£300,000	£255,000	£210,000	£165,000
Cyfanswm y costau i ymarferwyr/mangreoedd/cerbydau (C)	0	£2,744,583	£624,779	£579,779	£1,587,570
Is-gyfanswm y costau (A+B+C)	0	£4,618,738- £4,623,138	£1,212,432	£1,096,666	£2,895,763- £2,900,163
Addasiad ar gyfer derbyniadau o ffioedd ceisiadau a chydymffurfiaeth (minws D) ‡	0	-£1,803,140	-£272,265	-£272,265	-£1,177,465
Cyfanswm costau opsiwn 2 (A+B+C minws D)	0	£2,815,598- £2,819,998	£940,167	£824,401	£1,718,298- £1,722,698
Costau opsiwn 1 fel cymhariaeth	£506,320- £510,720	£504,720	£504,720	£506,320- £510,720	£504,720
Costau ychwanegol ar ben opsiwn un	0	£2,310,878- £2,315,278	£435,447	£318,081- £313,681	£1,213,578- £1,217,978
Nodiadau * cost ymchwilio cwynion dan y system gofrestru bresennol (opsiwn 1 – Tabl 2) **ystod cost o fynd ar ôl Gorchmynion Rhan 2A (opsiwn 1 – Tabl 3) ‡mae ffioedd cofrestru untro a wynebir gan ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau yn cael eu talu i awdurdodau lleol a'u defnyddio i wrthbwysu costau a wynebir wrth weinyddu'r cynllun trwyddedu. Felly mae'r rhain yn cael eu dangos fel credyd a chânt eu tynnu o'r cyfanswm i osgoi cyfri dwbl. ◇ costau dan y cynllun cofrestru presennol (opsiwn 1)					

Manteision

Arbedion y GIG

165. Mantais bennaf y cynllun trwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn. Fel yr eglurwyd yn gynharach, ceir risgiau iechyd hysbys yr adroddir yn helaeth amdanynt ac y gellir eu priodoli i unrhyw driniaethau sy'n golygu treiddio trwy'r croen. O dan opsiwn un, amcangyfrifwyd bod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thatwio a thyllu cosmetig yn arwain at gostau o £95,300 i £342,000 o leiaf i'r GIG bob blwyddyn.

Byddai unrhyw leihad yn y cymhlethdodau sy'n deillio o driniaethau arbennig yn lleihau costau i'r GIG.

166. Byddai unrhyw gymhlethdodau y llwyddir i'r hosgoi hefyd yn arwain at enillion QALY i unigolion, ond ni ellir eu mesur yma. Pennir gwerth o £60,000 i un QALY. Rhwng £4,303,600 a £4,312,400 dros gyfnod o bum mlynedd yw cost net gronnus opsiwn 2 uwchlaw cost cynnal y status quo a amlinellir yn opsiwn un. Byddai'n rhaid i'r cynllun trwyddedu arwain at enillion QALY o rhwng 71 a 72 er mwyn bod yn niwtral o ran cost.

Manteision eraill

167. Ystyrir bod y ddeddfwriaeth bresennol yn annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol – barn a ategwyd gan ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad i'r Papur Gwyn ar lechyd y Cyhoedd⁴⁹. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cynllun trwyddedu yn gosod gofynion ar ymarferwyr a busnesau a disgwylid iddynt wella safonau a sicrhau y cynhelir yr holl driniaethau arbennig mewn modd diogel a phriodol. Gan y byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu dulliau gorfodi priodol, disgwylir y byddai'r awdurdodau lleol yn canfod eu bod yn gallu ymdrin ag achosion o dorri gofynion mewn modd mwy syml, a diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol oherwydd hynny. Yn ogystal, mae'n annhebygol y byddai angen i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â Gorchmynion Rhan 2A, gan y byddai ganddynt ddulliau mwy effeithiol o ymdrin ag ymarfer heb ei awdurdodi.
168. Byddai'r rhan fwyaf o'r deiliaid trwydded sy'n rhoi triniaethau arbennig, a'r mangreoedd/cerbydau lle y'u cynhelir, hefyd yn elwa o safbwynt enw da. Trwy fodloni'r gofynion trwyddedu, byddent yn gallu dangos yn annibynnol i'r cyhoedd eu bod yn cadw at safonau hylendid a glanweithdra priodol, yn ogystal â defnyddio gweithdrefnau rheoli heintiau priodol.
169. Bydd y pecyn cyfathrebu a amlinellwyd yn gynharach yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymarferwyr a busnesau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn ymwybodol o'r cynllun trwyddedu. Byddai'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o beryglon defnyddio ymarferwyr didrwydded a mangreoedd/cerbydau nad ydynt wedi eu cymeradwyo, yn ogystal â pheryglon gwneud y triniaethau eu hunain neu gael triniaeth gan ffrind sydd heb ei hyfforddi. Gan y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y trwyddedau a gyhoeddwyd ganddynt a'r mangreoedd y maent wedi eu cymeradwyo, gallai unrhyw un sy'n dymuno cael triniaeth arbennig edrych ar wefan eu hawdurdod lleol i weld pa ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau sydd wedi bodloni'r safonau cenedlaethol. Byddai hyn o gymorth i wneud y drefn yn fwy tryloyw a sicrhau bod gan bobl fwy o wybodaeth.
170. Yn ogystal â'r arian y gallai'r GIG ei arbed, fel y nodir uchod, gallai fod manteision economaidd ehangach i'r cynllun trwyddedu pe byddai gwelliant yn safonau'r sector yn arwain at lai o achosion o absenoldeb o'r gweithlu oherwydd cymhlethdodau ar ôl cael triniaeth.

⁴⁹ <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/?lang=en>

Opsiwn 2B – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig ynghyd â chofrestr ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy sy'n darparu triniaethau arbennig

171. Yn ogystal â'r cynllun trwyddedu cenedlaethol, gorfodol a nodir yn opsiwn 2A, mae'r opsiwn hwn nawr yn golygu'r Opsiwn 2B blaenorol o'r RIA gwreiddiol, a wnaeth gynnig datblygu cofrestr genedlaethol ar-lein o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd (gan gynnwys cerbydau) cymeradwy sy'n darparu pedair triniaeth arbennig a enwir yng Nghymru. Ers i'r RIA gwreiddiol gael ei gyhoeddi, mae awdurdodau lleol Cymru wedi cytuno y byddai'n well creu un gofrestr genedlaethol a bod pawb yn cyfrannu at ei data a'i chynnal a'i chadw. Bydd y gofrestr ganolog yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol arweiniol, a byddai ar gael i'r holl awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi. Byddai hefyd ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei gweld.
172. Mae'r awdurdod lleol arweiniol sy'n gweithredu ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi tendro am y gwasanaethau TG angenrheidiol i adeiladu a phrofi'r gofrestr yn ôl gofynion y Ddeddf ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol, a bydd yn ymgymryd â'r rôl gyswllt angenrheidiol i gyflwyno'r defnydd o'r gofrestr at ddibenion cofnodi i'r holl awdurdodau lleol eraill. Adeg yr ymgynghoriad hwn, cytunwyd ar grant gan Weinidogion Cymru i ariannu'r gwaith TG angenrheidiol i adeiladu'r gronfa ddata ofynnol a'r porth ar-lein. Unwaith y bydd y gronfa ddata a'r porth wedi'u hadeiladu ac yn barod i'w defnyddio, bydd awdurdodau lleol yn ariannu'r gwaith o gynnal a chadw'r gronfa ddata ar y cyd drwy dderbynebaw ffioedd ceisiadau a chydymffurfio o'r cynllun yn ei gyfanrwydd.
173. Mae rhai o'r costau staff a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r gofrestr eisoes wedi cael eu hystyried ym mharagraff 111 a Tabl 10, yn ogystal â'r credydau derbyn o'r cynllun, felly mae'r adran hon ond yn ymwneud â chostau ychwanegol i'r rhai a adnabuwyd eisoes.

Costau

Llywodraeth Cymru

174. Mae cost gychwynnol i Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith TG i ddatblygu a phrofi'r gofrestr ar-lein. Cytunwyd ar y grant hwn fel swm o £89,950 ac mae ariannu cost gychwynnol y datblygiad wedi cael ei gytuno fel cyfanswm o £75,950, i'w rannu'n gyfartal rhwng 2022-23 a 2023-24.
175. Byddai angen amser staff i reoli'r cyllid ar gyfer datblygu'r gofrestr. Amcangyfrifir y byddai hyn yn gofyn am oddeutu tair wythnos o amser swyddog gweithredol uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £3,219 wedi'i rannu rhwng 2022-23 a 2023-24.

176. Cymerwyd cryn amser staff wrth benderfynu ar y cais am gyllid, cael y cliriadau angenrheidiol gan dimau llywodraethu mewnol a chael y cytundeb i'r cyllid gan Weinidogion Cymru. Digwyddodd hyn trwy gydol 2022 ac mae'n anodd ei fesur felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y costau.

Awdurdodau lleol

177. Cymerwyd cryn amser staff gan y prif awdurdod lleol wrth redeg y broses dendro ar gyfer y contract TG, dewis y cwmni llwyddiannus a chysylltu â nhw, cyflwyno'r cais am arian a chael y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Digwyddodd hynny dros nifer o flynyddoedd gan fod y pandemig wedi torri ar draws y broses ac ailddechreuwyd trwy gydol 2022. Felly mae'n anodd mesur y gost i'r awdurdod arweiniol gan y byddai'r gwaith hwn wedi'i amsugno yng nghostau staff presennol felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y costau.
178. Byddai angen amser staff ar yr awdurdod arweiniol i reoli'r contract ar gyfer y gwaith TG gyda'r cwmni sydd wedi ei ddewis drwy dendr ac i ddarparu rheolaeth prosiectau i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chyflwyno yn ôl gofynion y Ddeddf ac yn ôl y terfynau amser. Byddai hefyd angen amser staff i gael eu hyfforddi ar ddefnyddio'r gronfa ddata sy'n gyrru'r gofrestr. Ar hyn o bryd nid yw amser a chost staff i'r awdurdod arweiniol wedi'u meintoli ganddynt, felly nid yw'n hysbys ar hyn o bryd, ond byddant yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol y ddogfen hon.
179. Mae hyfforddiant ar gyfer staff awdurdodau lleol (fydd yn cynnwys defnyddio'r gronfa ddata) a chynnal data ar y gofrestr eisoes wedi cael ei gyfrif amdano yng nghostau'r awdurdod lleol yn Nhabl 10.
180. Ar ôl i'r gofrestr ganolog gael ei sefydlu, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal y data sy'n berthnasol i'w ardal, a'u diweddarau fel y bo angen. Bydd manylion pob trwydded ymarferwr neu gymeradwyaeth mangreoedd/cerbydau yn cael eu hychwanegu at y gronfa ddata wrth iddynt gael eu caniatáu. Gan fod yr holl ymarferwyr presennol a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau yn gorfod gwneud cais am y cynllun newydd, mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o gofrestriadau yn digwydd yn 2023-24, ac ar ôl hynny bydd trwyddedau/cymeradwyaethau ac amrywiadau newydd i drwyddedau/cymeradwyaethau presennol yn cael eu hychwanegu wrth iddynt gael eu prosesu. Byddai ceisiadau adnewyddu yn cael eu derbyn bob tair blynedd, a byddai angen diwygio'r cofnodion presennol. Mae costau ar gyfer cynnal a chadw'r gofrestr eisoes wedi'u cynnwys yn Nhabl 10.
181. Yn ogystal â'r costau datblygu, byddai costau rheoli TGCh rheolaidd ar gyfer materion cynnal a chadw megis gwneud copïau wrth gefn o'r data rhag eu colli, costau gweinydd, a chostau i ddatrys problemau technegol. Mae'r contract sydd wedi'i dendro wedi nodi y byddai ffi flynyddol reolaidd o £24,000 ar gyfer trwyddedau TG a chefnogaeth dechnegol, sydd wedi'i gostio ar sail Cymru gyfan. Y bwriad yw y byddai'r costau parhaus hyn yn cael eu gwrthbwysu gan dderbynebaw o ffioedd trwydded y cynllun yn gyffredinol, i'w rhannu rhwng

awdurdodau lleol. Byddai'r rhain yn cael eu hysgwyddo'n flynyddol o ddiwedd 2022-23, wrth i'r awdurdodau lleol ddechrau cymeradwyo ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau.

182. Mae'r credyd derbyn i awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi ei gyfrifo a'i gyfrif amdano yn Nhabl 15.

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio)

183. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i ymarferwyr a busnesau mewn perthynas â'r gofrestr. Ni fyddai angen darparu unrhyw wybodaeth ar ben y gofynion a nodir yn y cynllun, gan y bydd y gofrestr a'i chronfa ddata ond yn cynnwys manylion pob tystysgrif trwydded/cymeradwyo, nid y personau sy'n eu dal, heblaw am eu henw a chyfeiriad eu mangreoedd/cerbydau busnes (lle bo hynny'n berthnasol).

Tabl 16 - Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2B

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Llywodraeth Cymru					
Rheoli cyllid grant y gofrestr ganolog	£1,610	£1,610	0	0	0
Gwerth y grant	£44,975	£44,975	0	0	0
Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru	£46,585	£46,585	0	0	0
Awdurdodau lleol					
Rheolaeth yr awdurdod arweiniol o'r contract TG	0	0	0	0	0
Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol					
Cyfanswm y costau (yn ychwanegol i'r costau sydd wedi'u hadnabod yn flaenorol yn Nhabl 10 a thabl 15)					

Manteision

Arbedion i'r GIG

184. Mae unrhyw arbedion i'r GIG wedi'u hamlinellu o dan opsiwn 2.

Awdurdodau lleol

185. Byddai'r holl wybodaeth am ddeiliaid trwydded ymarferwyr a chymeradwyaethau mangreoedd/cerbydau mewn un gronfa ddata ganolog. Bydd hyn yn cyflawni'r ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i gadw cofrestr, a bydd yn darparu arbedion maint i awdurdodau lleol gan y rhennir y gwaith o sefydlu a chynnal y gofrestr a'r wybodaeth ynglŷn â gorfodi ar gael i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, rhagwelir y byddai cofrestr ganolog yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u cyfrifoldebau monitro a gorfodi. Byddai hyn yn arbennig o wir o ran ymarferwyr a fyddai'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Ni ellir mesur y fantais hon.

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio)

186. Byddai'r gofrestr ganolog yn cynorthwyo ymarferwyr a phobl sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau i godi ymwybyddiaeth o'u statws fel pobl sydd wedi bodloni'r gofynion trwyddedu, ac yn galluogi darpar gleientiaid i gysylltu â hwy. Pe byddai ymarferydd, person sy'n rheoli mangreoedd/cerbydau neu aelod o'r cyhoedd yn dod i wybod bod unigolyn yn gweithredu'n groes i'r ddeddfwriaeth, byddai'n gallu edrych ar y gofrestr ganolog a hysbysu'r awdurdod lleol. Bwriad y cynllun gorfodol yw galluogi ymarferwyr i weithio unrhyw le yng Nghymru mewn mangreoedd/cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo, felly mae'n darparu mwy o hyblygrwydd na'r cynllun cofrestru a amlinellir yn Opsiwn 1.

Y cyhoedd

187. Byddai cyfleuster canolog, hygyrch ar gael i'r cyhoedd y gallent chwilio drwyddo yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer Cymru gyfan i ddod o hyd i ymarferydd trwyddedig, neu fangre/cerbydau wedi eu cymeradwyo yn eu hardal.

Crynodeb a'r opsiwn a ffafir

188. Mae opsiwn 1 yn parhau â'r status quo ac nid yw'n bodloni'r amcan polisi. Mae'n parhau â'r sefyllfa lle y mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu dulliau anghyson o orfodi. Ystyrir bod y pwerau sydd ar gael i reoli busnesau sy'n darparu gwasanaeth aciwbigo, tatwio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn annigonol i warchod iechyd y cyhoedd.
189. Mae opsiwn 2 yn cynnig cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu'r pedair triniaeth arbennig a enwir yng Nghymru, a'r mangreoedd/cerbydau y'u gwneir nhw ohonynt. Byddai safonau cenedlaethol yn

cael eu cymhwyso drwy amodau trwyddedu gorfodol, hyfforddiant atal a rheoli heintiau, proses ymgeisio a chymeradwyo cyson a strwythur ffioedd a fframwaith gorfodi. Yn hynny o beth, y nod fyddai gwella safonau, creu tegwch ar gyfer busnesau sydd ag enw da a sicrhau bod y triniaethau hyn yn cael eu rheoleiddio'n well ac mewn modd mwy cyson ledled Cymru. Ystyrir bod y dogfennau canllaw a'r gweithgarwch cyfathrebu yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng cost a'r tebygrwydd o gyflawni'r amcan polisi, a'r manteision diriaethol ac anniriaethol i gleientiaid, y GIG, ymarferwyr a busnesau.

190. Rhoddodd yr RIA blaenorol y farn bod dilyn cofrestr ganolog yn syth â buddion cyfyngedig i awdurdodau lleol, busnesau a'r cyhoedd, gan ei fod yn cynyddu pa mor rhwydd y gellid cael gafael ar wybodaeth.. Fodd bynnag, ers hynny penderfynodd awdurdodau lleol sy'n gweithredu gyda'i gilydd yr ystyrir bellach, gan fod y wybodaeth orfodol i'w chynnwys yn y gofrestr wedi'i nodi yn y Ddeddf, roedd yn well adeiladu'r gofrestr cyn dechrau'r ddeddfwriaeth a chyflwyno'r cynllun gorfodol, ac mae'r gwaith hwn wedi dechrau. Mae nifer o fanteision i reoliadau. Caiff y gofrestr ei phrofi a'i gwneud yn barod, a bydd awdurdodau lleol yn gallu ymgyswrtu â'i defnydd cyn i geisiadau byw ar gyfer cofrestru trwyddedau/cymeradwyo gael eu gwneud. Bydd unrhyw ganllawiau a deunyddiau hyrwyddo yn medru cyfeirio at y rhan o'r gofrestr sy'n wynebu'r cyhoedd, gan osgoi'r angen i'w hyrwyddo ar wahân.

Ymgynghoriad ar yr RIA hwn

191. Mae'r RIA hwn yn rhan o'r dogfennau a gyflwynir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gwahoddir yr holl randdeiliaid i roi sylwadau ar yr RIA hwn a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio'r rheoliadau drafft, a fydd yn destun ymarfer ymgynghori pellach ar y rheoliadau drafft a wneir ac y bydd y Senedd yn craffu arnynt

Asesiad Effaith Integredig

192. Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi'i gwblhau ar gyfer y rheoliadau hyn a gellir ei weld yma: <https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

Adolygu ar ôl gweithredu

193. Mae adolygu ar ôl gweithredu yn rhan annatod o'r cynnig hwn. Diben y rheoliadau sydd i'w gwneud yw pennu manylion y cynllun trwyddedu gorfodol i driniaethau arbennig yng Nghymru gyda'r bwriad o:

1. darparu fframwaith cyfreithiol cyson a mwy effeithiol i awdurdodau lleol reoleiddio'r diwydiant hwn.

2. codi safonau cyson o atal a rheoli heintiau yn y sector hwn.
 3. darparu mesurau diogelu gwell i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau hyn a thrwy hynny leihau effeithiau niweidiol ar iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig.
-
194. Rydym yn rhagweld y bydd pwyntiau 1 a 2 yn rhan gymharol syml o'r adolygiad oherwydd y systemau yr ydym eisoes wedi'u sefydlu i hwyluso hyn. Mae ein rhwydweithiau awdurdod lleol ac ymarferwr sydd wedi hen ennill eu plwyf wedi nodi y byddant yn cefnogi'r gwaith hwn.
 195. Mae rhwydwaith diogelu'r cyhoedd awdurdodau lleol yn cynnwys paneli arbenigol sy'n adrodd i grŵp cenedlaethol o benaethiaid iechyd yr amgylchedd sy'n cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r fframwaith hwn yn hwyluso gwaith partneriaeth ac yn cefnogi awdurdodau lleol wrth ymrwymo i benderfyniadau cenedlaethol ar ystod o ddisgyblaethau diogelu'r cyhoedd. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi ymrwymo i hyn er mwyn gweithredu ac adolygu'r cynllun trwyddedu triniaethau arbennig.
 196. Mae adran 75 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal a chyhoeddi cofrestr o'r holl ymarferwyr triniaethau arbennig trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i sefydlu cofrestr ganolog a'i chynnal fesul awdurdod lleol o bob cwr o Gymru ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hyn wedi elwa o sicrhau bod set gyson o ddata'n cael ei chasglu gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ac mae'r data a gyhoeddir gan bob awdurdod lleol ar gael mewn un lle. Bydd y gofrestr felly yn cynnwys Cymru gyfan, a bydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd ymgynghori. Y data hwn fydd yn sylfaen i'r adolygiad ar ôl gweithredu.
 197. Bydd data sy'n gysylltiedig â gorfodi a chydymffurfio'r cynllun trwyddedu yn cael ei fonitro am y flwyddyn gyntaf o weithredu bob chwarter i ganfod cynnydd y cyfnod pontio a darparu'r ffigwr gwaelodlin o ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd/cerbydau cymeradwy. Rhagwelir y bydd mwyafrif y ceisiadau yn cael eu derbyn yn naw mis cyntaf gweithrediad y cynllun gan mai dyma'r amser y bydd yn rhaid i ymarferwyr presennol a phobl sy'n rheoli safleoedd wneud eu ceisiadau i bontio o'r hen gynllun cofrestru i'r cynllun newydd. Bydd y gronfa ddata a fydd yn gyrru'r gofrestr ganolog ar-lein yn cael ei defnyddio i gynhyrchu'r ystadegau hyn.
 198. Bydd gwerthuso'r data o 12 mis cyntaf yr adolygiad hwn yn pennu pa mor aml y byddid yn casglu data yn ail flwyddyn ei weithredu. Rydym yn rhagweld y bydd data'n cael ei adolygu ar sail genedlaethol a lleol ac yn ôl y math o driniaeth arbennig. Bydd y dull hwn yn helpu i lywio'r angen am unrhyw ymyriadau addysg, hyrwyddo neu orfodi wedi'u targedu.
 199. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr triniaethau arbennig gynnal ymgynghoriad â'u cleient cyn ac ar ôl i driniaeth arbennig gael ei chynnal, ac mae hyn yn cynnwys cadw cofnod o'r cyngor ôl-ofal a roddir, gan gynnwys camau y dylai'r cleient eu cymryd i atal heintiau. Bydd yr arferion hyn ynghyd ag

eraill yn cael eu monitro gan awdurdodau lleol ac felly gellid eu casglu fel rhan o'r adolygiad gorfodi.

200. Bydd pwynt 3 yn cyflwyno mwy o heriau ond gall fod yn gyraeddadwy drwy ddefnyddio cysylltiadau sefydledig gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ~~sydd~~, ~~ynghyd~~ â thimau clefydau trosglwyddadwy awdurdodau lleol sy'n ymchwilio i achosion o'r haint sy'n gysylltiedig â triniaethau arbennig.
201. Ystyrir a fyddai'r rhwydwaith ymarferwyr, paneli arbenigol a chydweithwyr mewn disgyblaethau prifysgolion perthnasol yn gallu cynorthwyo i asesu manteision y cynllun trwyddedu i fusnesau ac iechyd eu cleientiaid.
202. Y bwriad oedd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach gyda'r nod o ganfod triniaethau arbennig eraill y dylid eu cynnwys yn y cynllun gorfodol. Y bwriad oedd gwneud hyn unwaith y bydd y cynllun trwyddedu arfaethedig yn cael ei sefydlu er mwyn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol weithredu'r cynllun gyda'r pedair triniaeth a enwir. Mae'n debygol y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu faterion gweithredol yn cael eu hadnabod gan awdurdodau lleol o fewn y cyfnod hwn, a allai arwain at orfod addasu'r canllawiau neu'r rheoliadau. Mae hyn yn arferol gydag unrhyw gynllun newydd, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn adborth gan awdurdodau lleol yn hyn o beth.
203. Byddai'n rhesymegol adolygu'r cynllun yn ei gyfanrwydd ar yr un pwynt er mwyn canfod a yw'n cyflawni amcanion polisi gwella safonau atal a rheoli heintiau o fewn y diwydiant ac i bob pwrpas ffrwyno gweithgareddau'r ymarferwyr hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.